WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Asesiad Strwythuredig 2018 – **Bwrdd Iechyd Addysgu Powys**

Blwyddyn archwilio: 2018

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1014A2019-20

Lluniwyd y ddogfen hon yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Elaine Matthews, Barrie Morris, Gail Turner-Radcliffe a Gareth Lewis o dan gyfarwyddyd David Thomas.

# Cynnwys

Ar y cyfan, mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cadarn ar waith ar gyfer llywodraethu, cynllunio strategol a'r defnydd o adnoddau, o gofio bod gwaith yn dal i barhau mewn sawl maes i gryfhau'r trefniadau eto.


Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Y Cefndir 4

Y Prif Gasgliadau 5

Llywodraethu - mae'r Bwrdd Iechyd yn cael ei arwain yn dda a'i lywodraethu'n dda ar y cyfan, ac yn datblygu gwaith mewn sawl maes er mwyn parhau i gryfhau ei drefniadau llywodraethu 5

Cynllunio strategol - mae gwaith cynllunio strategol y Bwrdd Iechyd yn gynyddol systematig a'i fecanweithiau ar gyfer monitro gweithrediad yn gwella, ac mae'n rhoi ymagwedd newydd ar waith er mwyn trosi ei CTCI yn weithredoedd. 13

Trefniadau ehangach sy'n cefnogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau - mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n galed i ymdrin â heriau o ran y gweithlu, yn cynnal ei berfformiad ariannol ar y cyfan, ond yn wynebu heriau o ran cyflwr yr ystâd a rheoli cyfarpar meddygol 15

Argymhellion 24

Atodiadau

Atodiad 1 – cynnydd wrth weithredu argymhellion blaenorol 26

Atodiad 2 – ymateb y Bwrdd Iechyd i argymhellion eleni 28

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r canfyddiadau o waith asesiad strwythuredig yr Archwilydd Cyffredinol ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys (y Bwrdd Iechyd) yn 2018. Cyflawnwyd y gwaith er mwyn cynorthwyo i fodloni gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol, o dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2014, sef bod yn fodlon bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

2 Roedd ein gwaith ar asesiad strwythuredig 2018 yn cynnwys cyfweliadau â swyddogion ac Aelodau Annibynnol, arsylwi cyfarfodydd y bwrdd, pwyllgorau a rheolwyr ac adolygu dogfennau, perfformiad a data ariannol perthnasol. Cynhaliom hefyd arolwg o aelodau bwrdd ar draws holl fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG. Ymatebodd wyth o'r 19 o aelodau Bwrdd a gafodd wahoddiad i gymryd rhan (42%) ond gan mai ond dau ohonynt oedd yn aelodau annibynnol nid ydym wedi gwneud defnydd helaeth o ganlyniadau'r arolwg.

3 Mae gwaith asesu strwythuredig eleni yn dilyn themâu tebyg i waith blynyddoedd cynt, er inni ehangu'r cwmpas i gynnwys sylwebaeth ar drefniadau'n gysylltiedig â chaffael, rheoli asedau a gwella effeithlonrwydd a chynhyrchiant. Mae'r adroddiad yn rhannu ein canfyddiadau o dan dair thema - trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd, ei ymagwedd at gynllunio'n strategol a'r trefniadau ehangach sy'n cefnogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau. I gloi'r adroddiad, nodir ein hargymhellion.

4 Mae Atodiad 1 yn crynhoi'r camau gweithredu a gymerwyd i ymateb i argymhellion asesiad strwythuredig y flwyddyn gynt. Yn Atodiad 2 ceir ymateb y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion sy'n deillio o'n gwaith yn 2018.

## Y Cefndir

5 Yn ein gwaith ar Asesiad Strwythuredig 2017, gwelsom fod y Bwrdd Iechyd wedi parhau i ymwreiddio'r trefniadau corfforaethol sy'n cefnogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o'i adnoddau. O ran cyllid, daethom i'r casgliad bod y Bwrdd Iechyd wedi llwyddo'n rhesymol i sicrhau arbedion cylchol yn y gorffennol, wedi cryfhau trefniadau monitro ac wedi bodloni'r gofyniad statudol i fantoli'r gyllideb ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben yn 2016-17. O ran cynllunio a llywodraethu, daethom i'r casgliad bod trefniadau'n gadarn ar y cyfan a bod gwaith pellach ar y gweill i gefnogi cydnerthedd y sefydliad a chryfhau trefniadau llywodraethu gwybodaeth. Amlygwyd hefyd bod gwaith ar y gweill i nodi elfennau'r gweithlu yng nghynlluniau cyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI), a bod rhai o fetrigau'r gweithlu wedi dangos gwelliannau o ran craffu'n systematig ar drefniadau rheoli'r gweithlu.

6 Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswydd ariannol i fantoli'r gyllideb a sicrhau gwarged bychan ar ddiwedd 2017-18. Llwyddodd hefyd i gynhyrchu CTCI cymeradwy ar gyfer 2018-2021 o fewn y terfyn amser a oedd yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru.

7 Cyflwynwyd amryw o newidiadau i'r portffolios gweithredol ar ddechrau 2018. Newid nodedig oedd gwahanu'r cyfrifoldeb gweithredol dros iechyd cymunedol a iechyd meddwl oddi wrth ofal sylfaenol, a threfnu i'r Prif Weithredwr fod yn gyfrifol am ofal sylfaenol dros dro. Ym mis Rhagfyr 2018, cafodd y rôl hon ei chyfuno eto o dan y Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Chymunedol ac Iechyd

Meddwl/Anableddau Dysgu, a'i llenwi dros dro. Cadarnhawyd y byddai'r Cadeirydd yn parhau yn ei swydd am bedair blynedd arall. Bu rhai newidiadau hefyd ymhlith yr aelodau annibynnol.

8 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau â 'threfniadau arferol' o dan Fframwaith Uwchgyfeirio ac Ymyrraeth GIG Cymru, statws y mae wedi'i gadw ers cyflwyno'r Fframwaith. Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd fwyafrif ei ymrwymiadau yn CTCI 2017-2021, er bod rhai heriau yn weddill. Bu perfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn targedau perfformiad blynyddol yn dda yn y rhan fwyaf o feysydd, er bod rhai mesurau ar ei hôl hi.

9 Mae'r Bwrdd Iechyd yn comisiynu ei wasanaethau gofal eilaidd oddi wrth 15 o brif sefydliadau'r GIG ar draws Cymru a Lloegr. Mae gwasanaethau a gomisiynir yn rhai o'r sefydliadau hynny yn parhau i fod yn destun pryder. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn dylanwadu ar newidiadau strategol sylweddol mewn sawl sefydliad ar draws yr economïau iechyd hyn.

# Y Prif Gasgliad

10 Ein prif gasgliad yw **bod gan y Bwrdd Iechyd, ar y cyfan, drefniadau cadarn ar waith ar gyfer llywodraethu, cynllunio strategol a'r defnydd o adnoddau, o gofio bod gwaith yn dal i barhau mewn sawl maes i gryfhau'r trefniadau eto.**

11 Rhoddir ystyriaeth fanylach yn yr adrannau canlynol i'r canfyddiadau sy'n sail i'n casgliad cyffredinol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd yn erbyn argymhellion blaenorol, ond mae angen iddo gyflawni gwaith pellach er mwyn ymateb yn llawn iddynt. Ceir crynodeb o gynnydd cyffredinol yn erbyn argymhellion yn Atodiad 1.

## Llywodraethu

12 Fel yn y blynyddoedd cynt, archwiliwyd trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd yn rhan o'n hasesiad strwythuredig. Rydym yn cynnig sylwadau ar y modd y mae'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau yn cynnal eu busnes, a'r graddau y mae strwythurau trefniadol yn cefnogi trefniadau llywodraethu da ac atebolrwydd clir. Buom hefyd yn edrych ar yr wybodaeth y mae'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau yn ei derbyn i'w helpu i oruchwylio a herio perfformiad a monitro cyflawniad amcanion y sefydliad. Rydym wedi defnyddio canlyniadau ein harolwg o aelodau'r Bwrdd er mwyn helpu i ddeall enghreifftiau lle mae pethau'n gweithio'n dda, ac enghreifftiau lle gellid cryfhau'r trefniadau.

13 Gwelsom fod y **Bwrdd Iechyd ar y cyfan yn cael ei arwain a'i lywodraethu'n dda ac yn datblygu gwaith mewn sawl maes er mwyn parhau i gryfhau ei drefniadau llywodraethu.**

### Gweinyddu busnes yn effeithiol

14 Buom yn edrych ar y modd y mae'r Bwrdd yn ei drefnu ei hun er mwyn helpu i weinyddu busnes yn effeithiol. Gwelsom fod **trefniadau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau yn dda ar y cyfan a bod lle i wella rhai agweddau ar eu trefniadau ar gyfer sicrwydd**.

15 Mae trefniadau llywodraethu cadarn yn hollbwysig er mwyn rhoi cyfeiriad strategol, herio effeithiolrwydd darpariaeth a sicrhau bod camau unioni yn cael eu gweithredu i ddatrys problemau os ydynt yn codi. Cafodd y Rheolau Sefydlog a'r Cynllun Cadw a Dirprwyo Pwerau eu adolygu, gan gyflwyno ambell newid i'r fersiwn dyddiedig Mai 2017, gan gynnwys y canlynol: yn sgil newidiadau i bortffolios y Cyfarwyddwyr Gweithredol, cafodd y pwyllgorau a fynychir ganddynt yn rheolaidd eu diweddaru; gostyngwyd nifer y cyfarfodydd pwyllgor i bedwar y flwyddyn ar gyfer y Pwyllgor Iechyd

Meddwl ac Anableddau Dysgu, a Phwyllgor y Gweithlu a Datblygu Trefniadol; a lleihau'r amser ar gyfer anfon papurau allan o ddeg i saith diwrnod. Er i'r Bwrdd gymeradwyo'r newidiadau ar 30 Mai 2018, nid yw fersiynau diwygiedig y Rheolau Sefydlog na'r Cynllun Cadw a Dirprwyo Pwerau wedi'u cyhoeddi eto.

16 Y llynedd, adroddwyd yn yr asesiad strwythuredig na chafodd rhaglenni gwaith y Bwrdd a'r pwyllgorau eu cymeradwyo hyd fis Gorffennaf 2017. Er inni gael sicrwydd bod yr holl bwyllgorau'n gweithio i ddrafftio rhaglenni gwaith, argymhellwyd y dylai holl raglenni gwaith y Bwrdd a'r pwyllgorau gael eu cwblhau cyn dechrau'r flwyddyn ariannol nesaf, fel y nodir yn y rheolau sefydlog. Cafwyd cynnydd eleni wrth i'r Bwrdd gymeradwyo saith o wyth o raglenni gwaith y pwyllgorau ar gyfer 2018-19 ym mis Mai 2018, ar ôl cymeradwyo'r cynllun blynyddol ar gyfer 2018-19 ym mis Mawrth 2018. Fodd bynnag, ni chymeradwywyd rhaglen waith y Bwrdd hyd fis Gorffennaf 2018, ond nid yw hyn wedi achosi unrhyw broblemau ymarferol. Yn ddiweddar trafodwyd sut i sicrhau bod rhaglenni gwaith y Bwrdd a'i bwyllgorau wedi'u halinio'n well ar gyfer 2019-20. Lluniodd chwe phwyllgor adroddiadau blynyddol ar gyfer 2017-18 ym mis Mai 2018, a lluniodd y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol ei adroddiad blynyddol yn y flwyddyn ar ôl archwilio ei gyfrifon ym mis Tachwedd.

17 Yn ôl y rheolau sefydlog, bydd busnes y Bwrdd yn cael ei gyflawni mewn modd agored a thryloyw er mwyn cefnogi'r nod o roi dinasyddion yn gyntaf. Bydd hefyd yn cael ei gyflawni mewn modd sy'n annog ei ddinasyddion, ei bartneriaid cymunedol a rhanddeiliaid eraill i gymryd rhan yn weithredol. Bydd y Bwrdd yn hwyluso hyn drwy sawl ffordd, gan gynnwys dewis lleoliadau hygyrch ac addas ar gyfer cyfarfodydd. Ni chafodd lleoliadau cyfarfodydd y Bwrdd eu cynnwys yng nghylch busnes y Bwrdd, er bod hyn yn ofynnol yn y rheolau sefydlog, sy'n nodi y bydd y cynllun hwn yn cynnwys cynigion ynghylch dyddiadau cyfarfod, lleoliadau, ac ymdriniaeth â gweithgarwch busnes yn ystod y flwyddyn. Cynhelir holl gyfarfodydd y Bwrdd fel arfer ar safle Bronllys, ar wahân i'r un a drefnwyd ochr yn ochr â'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, a gynhelir fel arfer yn Llandrindod. Yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2018, bu'r aelodau'n trafod y posibilrwydd o gynnal rhai cyfarfodydd ar safleoedd eraill yn hytrach na Bronllys, i'w gwneud yn fwy hygyrch i staff a'r cyhoedd. Er mwyn gwella hygyrchedd, bu'r Bwrdd Iechyd yn trydar yn fyw yn gynharach yn y flwyddyn, ond ni pharhawyd â hynny yn ystod 2018-19. Dywedodd Ysgrifennydd y Bwrdd y byddai'n adolygu trefniadau i gynyddu hygyrchedd, gan gynnwys opsiwn i we-ddarlledu; er na fydd hyn yn cael ei gyflawni yn ystod 2018-19, y mae wedi'i drefnu i'w drafod yn rhan o ddiwrnod datblygu'r Bwrdd ym mis Chwefror 2019.

18 Mae'r modd y mae cyfarfod y Bwrdd yn cael ei weinyddu yn dda ar y cyfan, ac fe geir llif dda o sicrwydd a risg rhwng y pwyllgorau a'r Bwrdd, a lefel briodol o her. Caiff cofnodion o benderfyniadau eu cadw a'u hadolygu ar gyfer y Bwrdd a phob pwyllgor ym mhob cyfarfod. Cytunir ar eitemau y mae angen eu huwchgyfeirio i sylw'r Bwrdd ar ddiwedd pob cyfarfod. Mae digon o amser ar gael yng nghyfarfod y Bwrdd i Gadeiryddion y pwyllgorau gyflwyno adroddiadau sicrwydd eu pwyllgorau. Fodd bynnag, mae lle i wella cynnwys papurau cyflwyno, oherwydd er bod rhai ohonynt yn amlygu agweddau pwysig adroddiadau, nid yw rhai eraill ond yn disgrifio cynnwys neu ddiben yr adroddiad, nad yw'n helpu aelodau i ganolbwyntio ar y meysydd pwysicaf.

19 Er y cafwyd ambell newid ymhlith yr aelodau annibynnol yn ystod y flwyddyn, mae'r Bwrdd wedi cadw cnewyllyn cryf o bobl brofiadol gan gyflwyno aelodau newydd ar ôl i rai ohonynt ymddeol. Cafwyd cworwm yn holl gyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau, er bod rhai aelodau annibynnol wedi'i chael hi'n anodd bod yn bresennol mewn cyfarfodydd ar adegau. Dyma faes y dylai'r Bwrdd Iechyd barhau i'w adolygu yn rhan o'i waith parhaus i gefnogi effeithiolrwydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau. Cafwyd cadarnhad y bydd y Cadeirydd yn parhau yn ei swydd am bedair blynedd arall, gan greu sefydlogrwydd. Ceir un swydd wag ar hyn o bryd ymhlith yr aelodau annibynnol, ac mae'r broses

recriwtio i gael aelod newydd ar y gweill. Yn dilyn penodiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol newydd yng Nghyngor Sir Powys ym mis Ebrill 2018, cyflwynwyd cais i'w phenodi'n ffurfiol fel Aelod Cysylltiol o'r Bwrdd i'w ystyried gan Ysgrifennydd y Cabinet ym mis Medi 2018.

20 Yn Rheolau Sefydlog y Bwrdd Iechyd nodir ei bod hi'n ofynnol cael tri grŵp cynghori: Fforwm Partneriaeth Lleol, Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid a Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd. Mae'r Fforwm Partneriaeth Lleol wedi'i hen sefydlu ac yn weithredol ers amryw o flynyddoedd. Er ei bod hi'n dda gweld bod y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid, y lluniwyd cyfansoddiad newydd ar ei gyfer yn ddiweddar, wedi cwrdd am y tro cyntaf ym mis Medi 2018, nid yw'r grŵp hwnnw wedi penodi Cadeirydd i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd eto. Yn olaf, dylid sefydlu Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd er mwyn creu darlun cytbwys amlddisgyblaethol o faterion proffesiynol gofal iechyd, i gynghori'r Bwrdd ynghylch strategaeth a chyflawniad lleol. Serch hynny, nid oes Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd.

21 Sefydlwyd y Pwyllgor Gweithredol yn 2016. O'r gwaith yr ydym wedi'i gyflawni, ymddengys fod proses benderfynu tîm y Weithrediaeth yn dryloyw, a'i fod yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Bwrdd am ei weithgareddau yn rheolaidd. Fodd bynnag, nodir yn y cylch gorchwyl y bydd yn llunio adroddiad blynyddol ysgrifenedig i'r Bwrdd ar ei weithgareddau, er nad oes adroddiad blynyddol wedi cael ei lunio.

22 Cafodd y Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad ei sefydlu'n wreiddiol yn 2014, ac mae ganddo swyddogaeth bwysig yn rhoi sicrwydd a chyngor ynghylch meysydd o fewn ei gylch gwaith. Eleni cafodd aelodaeth y pwyllgor ei ddiwygio i gynnwys Cadeiryddion holl bwyllgorau eraill y Bwrdd. Cymerwyd y cam hwn i gefnogi trefniadau llywodraethu mwy integredig, ac er y gallwn weld y sail resymegol ar gyfer hyn, mae'n golygu bod y pwyllgor hwn bellach yn anghymesur o fawr o gymharu â phwyllgorau eraill y Bwrdd.

23 Mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiadau rheolaidd ym mhob cyfarfod gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (PGIAC); Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (PGAB) a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC). Mae'r Bwrdd hefyd yn derbyn y newyddion diweddaraf am Gydweithrediaeth Gofal Iechyd Canolbarth Cymru (CGICC) a'r Cyd Fwrdd Partneriaeth (CFP). Rhoddodd yr adroddiad archwilio mewnol, CTCI - Fframwaith Cyd-gynllunio, sicrwydd rhesymol ynghylch y 'llinyn aur' sy'n cysylltu prosesau cynllunio'r Bwrdd Iechyd a Chyngor Sir Powys. Argymhellai, fodd bynnag, y dylid cryfhau rhai o'r trefniadau llywodraethu, yn enwedig y dull o adrodd am ddatblygiadau a phenderfyniadau gerbron y Bwrdd Iechyd. Ers mis Mawrth 2018, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau i gadarnhau'r trefniadau adrodd drwy roi diweddariadau rheolaidd i'r Bwrdd am gyfarfodydd a gynhaliwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Powys a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) Powys. O fis Medi 2018, cyflwynwyd y rhain mewn adroddiad ar wahân. Mae'r Cadeirydd wedi bod yn cymryd rhan mewn trafodaethau i egluro cylch gwaith y CFP a'r BPRh. Mae gwaith wedi dechrau i ddatblygu Fframwaith Llywodraethu Partneriaethau, a bydd y gwaith hwnnw'n cael ei gwblhau cyn dechrau 2019-20.

24 Mae'r Bwrdd yn dal i gyflawni ei waith ar bapur, ac mae hynny'n ddrud ac yn anodd ei weinyddu. Mae'r Bwrdd Iechyd yn caffael meddalwedd i'r Bwrdd a ddylai gynyddu effeithiolrwydd ei waith gweinyddol, ac yn darparu caledwedd addas i'r aelodau redeg y feddalwedd honno. Mae hyfforddiant wedi'i gynllunio i aelodau'r Bwrdd yn rhan o'r broses o roi hyn ar waith yn 2019. Fodd bynnag, rydym yn deall bod aelodau annibynnol wedi'i chael hi'n anodd cyrchu cyfrifon e-bost y GIG, a bod hynny wedi cyfrannu at y gyfradd isel o ymatebion i'n harolwg, felly mae'n hanfodol i'r holl aelodau gael mynediad da at TGCh cyn trosglwyddo i system awtomatig.

25 Nid yw'r Bwrdd wedi cynnal rhaglen ffurfiol o rawdiau 15 cam ers dros flwyddyn, ar ôl iddo ganfod mewn gwerthusiad fod y rhaglen honno'n rhy fiwrocrataidd ac yn rhy ddibynnol ar roi tic yn y bocs. Sylwn fod gan rai aelodau annibynnol gysylltiadau da â'r gymuned, a bod rhai wedi bod yn blasu bwyd ar y wardiau. Mae'r Pwyllgor Profiadau Cleifion, Ansawdd a Diogelwch yn bwrw ymlaen i ddatblygu rhaglen ffurfiol o ymweliadau i aelodau annibynnol ym mis Rhagfyr 2018, gan gynnwys ymweliadau â phractisau meddygon teulu yn rhan o'r adolygiadau practis ffurfiol. Dylai'r Bwrdd Iechyd adrodd ar yr ymweliadau gerbron y Pwyllgor Profiadau Cleifion, Ansawdd a Diogelwch.

26 Mae rhaglen datblygu'r Bwrdd wedi'i sefydlu'n dda ac yn cael ei chynnal ar chwe diwrnod ar draws y flwyddyn. Mae ganddo amserlen y cytunwyd arni ar ddechrau'r flwyddyn sy'n canolbwyntio ar feysydd allweddol fel datblygu'r CTCI a sicrwydd y Bwrdd, ond sy'n cynnwys hyblygrwydd i ganiatáu datblygiadau yn ystod y flwyddyn, fel trefniadau ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau a phryderon ynghylch ansawdd sy'n codi mewn gwasanaethau a gomisiynir. Bydd diwrnodiau datblygu'r Bwrdd yn y dyfodol yn canolbwyntio ar feysydd perthnasol, sef diwygio trefniadau pwyllgorau a chryfhau trefniadau risg a sicrwydd. Mae'r Bwrdd hefyd yn cydnabod bod angen canolbwyntio ar agweddau llawer ehangach na llywodraethu'r Bwrdd yn rhan o fframwaith datblygu'r sefydliad sy'n esblygu.

27 Mewn ymateb i bryderon ynghylch capasiti o fewn y Gyfarwyddiaeth Llywodraethu Corfforaethol, mae adnodda wedi cael eu hailddyrannu i gryfhau seilwaith y tîm, gan alluogi recriwtio Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol a Phennaeth Risg a Sicrwydd.

28 Mae gan y Bwrdd Iechyd 'draciwr' y gellir ei ddefnyddio er mwyn helpu i fonitro cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio. Y llynedd, adroddwyd bod Ysgrifennydd y Bwrdd yn ymgynghori â gwasanaeth Archwilio a Sicrwydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) er mwyn gallu defnyddio eu cronfa ddata tracio argymhellion. Yn ddiweddarach, penderfynodd ddefnyddio'r system dracio a ddatblygwyd gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, y mae'r Bwrdd Iechyd yn anelu i'w sefydlu erbyn mis Ebrill 2019. Er bod y Bwrdd Iechyd wedi adrodd wrth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ar gynnydd yn erbyn argymhellion, nid yw'r Pwyllgor wedi gweld y traciwr llawn ers dwy flynedd, ac nid yw hynny'n gyson â sefydliadau iechyd eraill am eu bod hwy'n darparu'r traciwr llawn yn rheolaidd i ddibenion craffu.

29 Bydd hi'n bwysig sicrhau bod y traciwr newydd yn cynnwys argymhellion o adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru, o ystyried nad oes adroddiad ar gynnydd yn erbyn yr argymhellion yn ein hadroddiadau ar hyn o bryd. Deallwn fod y Bwrdd Iechyd hefyd yn gweithio tuag at gynnwys argymhellion gan sefydliadau adolygu allanol eraill yn rhan o'r gwaith o ddatblygu ei draciwr argymhellion.

## Ymwreiddio system sicrwydd cadarn

30 Buom yn archwilio a oes gan y Bwrdd Iechyd system rheolaeth fewnol effeithiol i gefnogi sicrwydd y bwrdd. Gwelsom fod y Bwrdd Iechyd **yn parhau i gryfhau ei fframwaith sicrwydd ar gyfer y Bwrdd a'i drefniadau rheoli risg, a bod y rheolaethau mewnol yn gadarn ar y cyfan**.

31 Cymeradwyodd y Bwrdd fframwaith sicrwydd y Bwrdd a'r fframwaith rheoli risg ym mis Ionawr 2017. Adroddwyd wrth y Bwrdd y byddai fframwaith sicrwydd y Bwrdd yn cael ei ddiweddaru ar ôl cymeradwyo'r CTCI ym mis Mawrth 2018, i adlewyrchu'r newid tuag at wyth amcan llesiant. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi'i gyflawni eto, ond rhagwelir y bydd y fframwaith sicrwydd yn cael ei ddiweddaru cyn dechrau 2019-20. Cytunwyd ar gynllun gwella a gweithredu'r fframwaith sicrwydd ym mis Gorffennaf 2018, ac mae gwaith ar y gweill i sicrhau bod y cynllun hwnnw wedi'i gwblhau ar lefel y sefydliad erbyn diwedd mis Mawrth 2019.

32 Adroddwyd gennym y llynedd ar y gwaith helaeth a oedd ar y gweill ar draws y sefydliad i sicrhau bod y gofrestr risg gorfforaethol a chofrestrau risg y cyfarwyddiaethau yn cael eu gweithredu'n briodol. Fodd bynnag, adroddodd yr adran archwilio mewnol ar ddiwedd 2017-18 mai ond sicrwydd cyfyngedig yr oedd ei hadolygiad rheoli a sicrwydd risg yn ei roi. Canolbwyntiai'r adolygiad hwnnw ar sut i reoli risg yn weithredol, gan gynnwys ymagwedd y sefydliad at hyfforddiant, adnabod ac asesu risg. Dywedodd yr adran fod y canlyniad hwn yn siomedig ar ôl barnu'r flwyddyn gynt fod y fframwaith rheoli risg a oedd newydd ei gyflwyno yn rhoi sicrwydd rhesymol. Yn rhan o gynllun archwilio mewnol 2018-19 mae adolygiad rheoli a sicrwydd risg arall wedi'i drefnu ar gyfer chwarter pedwar. Bydd yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd y broses rheoli a sicrwydd risg, a'r modd y mae hyn yn magu gwreiddiau yn sgil cyflwyno fframwaith sicrwydd y Bwrdd.

33 Mae rhai risgiau wedi cael eu diwygio yn ystod y flwyddyn yn dilyn newidiadau i amgylchiadau, ac ymddengys fod y broses hon yn gweithio'n dda. Cafodd y gofrestr risg gorfforaethol ei diwygio yn ystod y flwyddyn i wella'r gosodiad a chynnwys mwy o fanylion ynghylch trywydd y sefydliad. Fodd bynnag, mae sgôr y rhan fwyaf o'r risgiau wedi aros yr un peth ers cryn amser er y cafwyd llawer o weithgarwch. Ceir trafodaeth fanwl ac agored ar reoli risg yn gysylltiedig â'r risgiau strategol hyn, a'r risgiau sy'n bodoli ers tro, yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad.

34 Ar ddiwedd yr ail chwarter, cymerodd y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol sawl cam i ymdrin â llywodraethu da, sy'n flaenoriaeth i'r sefydliad. Un o'r camau hynny oedd datblygu a gweithredu rhaglen gwella risg a sicrwydd i ymwreiddio egwyddorion y fframwaith rheoli risg a'r fframwaith sicrwydd y mae'r Bwrdd wedi cytuno arnynt. Cymeradwyodd y Pwyllgor Gweithredol y cynllun gwella a gweithredu ar gyfer risg ym mis Mai 2018, ac fe'i cyflwynwyd i'w drafod yng nghyfarfod mis Gorffennaf 2018 o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. Ym mis Tachwedd 2018, nododd y Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad fod angen gwneud llawer mwy i sicrhau bod risgiau ar lefel weithredol yn cael eu nodi a'u huwchgyfeirio fel bo'r angen. Dylai penodi'r Pennaeth Risg a Sicrwydd sicrhau capasiti, y mae taer angen amdano, er mwyn helpu i gryfhau'r trefniadau rheoli risg cyfredol o fewn y Bwrdd Iechyd.

35 Mae'r Pwyllgor Profiadau Cleifion, Ansawdd a Diogelwch yn gweithio'n rhesymol dda ac yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar berfformiad yn erbyn ystod o fetrigau ar gyfer gwasanaethau darparu a gwasanaethau a gomisiynir. Adroddir ar amrywiadau, tueddiadau a themâu yn ogystal â'r camau a gymerwyd er mwyn gwella, yn erbyn y Cynllun Cyflawni Ansawdd, y Safonau Iechyd a Gofal, Meysydd Allweddol y Comisiynydd Pobl Hŷn, yn ogystal â'r CTCI. Bu ffocws cryf ar ddiogelu, profiadau cleifion a chwynion; roedd adroddiad Cronfa Risg Cymru ar yr ymdriniaeth â chwynion yn gadarnhaol, ac mae'r Bwrdd Iechyd bellach wedi recriwtio unigolyn i'r swydd trin hawliadau fu'n wag ers tro. Ar hyn o bryd, mae'r Pwyllgor yn adolygu'r modd y mae'n gweithredu i sicrhau ei fod mor effeithiol ag sy'n bosibl cyn y flwyddyn ariannol newydd.

36 Mae'r fframwaith sicrwydd comisiynu wedi cael ei sefydlu ers 2015, ac fe'i defnyddir yn effeithiol i adrodd ar bryderon ynghylch perfformiad gwasanaethau a gomisiynir. Mae'n ystyried profiadau cleifion, ansawdd, diogelwch, mynediad, gweithgarwch, cyllid, llywodraethu a newid strategol. Mae'r ymagwedd ar waith yn 15 o Sefydliadau'r GIG yng Nghymru a Lloegr, ac fe gaiff hyd at 30 o feysydd arbenigol eu comisiynu ym mhob un o'r darparwyr hyn. Mae'r Pwyllgor Profiadau Cleifion, Ansawdd a Diogelwch yn derbyn adroddiadau ar unrhyw bryderon ynghylch perfformiad gan ei ddarparwyr sydd wedi cael eu huwchgyfeirio, yn enwedig Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Amwythig a Telford, lle cafwyd problemau ansawdd yn gysylltiedig â gwasanaethau mamolaeth a darpariaeth gwasanaeth ehangach. Yn sgil y problemau hynny, cymerodd y Comisiwn Ansawdd Gofal gamau brys yn erbyn yr Ymddiriedolaeth. Mae Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd yn cynnal trafodaethau rheolaidd â Phrif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth, a adroddir wrth y Bwrdd yn rhan o adroddiad y Prif Weithredwr.

37 Gofynnodd y Bwrdd Iechyd i'r adran archwilio mewnol gynnal adolygiad o wasanaethau podiatreg yn dilyn problem wrth reoli cofnodion. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Awst 2018 heb roi unrhyw sicrwydd, gan gyfeirio at bryderon ynghylch y modd y mae'r gwasanaeth yn cael ei reoli, amseroldeb gwasanaethau i gleifion, a'r ffaith nad yw cofnodion yn cael eu dal yn ddiogel. Caiff y gwasanaeth podiatreg ei reoli gan ardaloedd y gogledd a'r de yn rhan o'r Gyfarwyddiaeth Iechyd Cymunedol ac Iechyd Meddwl, a'r Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddorau Iechyd sydd yn atebol yn broffesiynol. Ni chafwyd cysondeb yn rôl y Cyfarwyddwr Therapïau dros y pum mlynedd diwethaf, ac mae'r rôl ar hyn o bryd yn cael ei chyflawni gan y Cyfarwyddwr Nyrsio drwy drefniant dros dro. Mae gwaith ar y gweill i ymdrin ag argymhellion yr adran archwilio mewnol, ac i sicrhau bod yr holl ddarpariaeth therapi a diagnosteg yn gweithio'n dda. Mewn adroddiad ar Strategaeth Therapïau a Gwyddorau Iechyd 2015-18 y Bwrdd Iechyd ym mis Tachwedd 2018, cyfeiriwyd at y cynnydd a gafwyd tuag at gyflawni'r strategaeth mewn sawl maes, a bydd unrhyw gamau sy'n weddill yn cael eu cynnwys yn y CTCI sydd ar ddod.

38 Mae rhaglen gyffredinol yr adran archwilio mewnol wedi cael ei defnyddio mewn modd priodol, ac yn parhau i ganolbwyntio ar feysydd risg y mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod bod ganddo bryderon yn eu cylch, lle mae angen gwella. Croesawodd y Bwrdd farn gyffredinol y Pennaeth Archwilio Mewnol ynghylch sicrwydd rhesymol ar gyfer 2017-18, yn dilyn y farn gyffredinol o sicrwydd cyfyngedig a gafwyd yn y blynyddoedd diwethaf.

39 Er bod y polisi rhoddion a lletygarwch wedi'i gynnwys yn y polisi safonau ymddygiad, nid oes gan y Bwrdd Iechyd gofrestr ar gyfer rhoddion, lletygarwch a nawdd. Yn ôl y Rheolau Sefydlog, dylid cadw cofrestr, gan gynnwys 'y cynigion hynny a wrthodwyd', a chyflwyno'r gofrestr i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd bob blwyddyn o leiaf. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cadw cofrestr ers sawl blwyddyn. Dywedodd y Gyfarwyddiaeth Llywodraethu Corfforaethol wrthym eu bod yn cynllunio i weithredu cofrestr electronig i ddatgan buddiannau, rhoddion a lletygarwch yn 2019, felly mae angen gweithredu hyn a chynnal hyfforddiant i'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod sut i'w llenwi. Yn unol â'r gofynion, derbyniodd y Bwrdd Adroddiad Blynyddol ar Gofrestru Buddiannau Aelodau'r Bwrdd yn 2017-18.

40 Mae'r trefniadau llywodraethu gwybodaeth (LIG) i raddau helaeth yn gyson a'r llynedd. Yn asesiad strwythuredig 2017, amlygwyd bod yr adran archwilio mewnol wedi barnu bod trefniadau diogelwch gwybodaeth a TG yn rhoi sicrwydd cyfyngedig. Cafwyd gwelliannau i'r trefniadau yn ystod 2017-18, gan fod y pedwar adolygiad archwilio mewnol a gynhaliwyd oll yn rhoi sicrwydd rhesymol ynghylch y canlynol:

- Adfer ar ôl Trychineb
- Deddf Diogelu Data (parodrwydd am RhDDC)
- Adolygiad dilynol o lywodraethu a chydnerthedd TG
- Adolygiad dilynol o adroddiad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a threfniadau rheoli cofnodion

41 Bydd strategaeth ddiwygiedig ar gyfer LIG yn cael ei chyflwyno gerbron y Pwyllgor Rheoli Gwybodaeth, Technoleg a Llywodraethu i'w chymeradwyo ym mis Ionawr 2019. Cymeradwyodd y Bwrdd y strategaeth gyfredol (2015-2018) ym mis Mehefin 2015, felly mae'n bryd ei diweddaru.

42 Yn asesiad strwythuredig y llynedd, nodwyd bod yr adolygiad o bolisïau LIG wedi'i oedi i gyd-daro â gweithredu'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC) ym mis Mai 2018, fel bo modd diweddaru'r polisïau i adlewyrchu gofynion penodol y RhDDC. Rhoddodd adroddiad archwilio mewnol ar y RhDDC ym mis Mawrth 2018 sicrwydd rhesymol. Fodd bynnag, amlygwyd bod trefniadau'r tîm LIG

yn annigonol i gyflawni'r rhwymedigaethau ychwanegol fydd yn deillio o weithredu'r RhDDC a'r busnes arferol yn dilyn hynny, o gymharu â gwybodaeth feincnodi am drefniadau sefydliadau eraill yn GIG Cymru. Ers yr adolygiad, cafodd gweinyddwr dros dro ychwanegol ei recriwtio am gyfnod penodol.

43 Mae'r trefniadau ar gyfer rheoli polisïau wedi gwella, ac roedd adroddiad archwilio mewnol diweddar yn cynnig sicrwydd rhesymol, er bod y polisi cyfredol ar gyfer rheoli polisïau ar ganol cael ei ddiweddaru. Mae polisïau LlG wedi cael eu datblygu ar gyfer Cymru gyfan, ond nid oedd y Bwrdd wedi'u mabwysiadu ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Nid oedd ychwaith wedi gorffen adolygu ei bolisïau mewnol ei hun. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau ei fod wedi sefydlu polisïau cyfredol ar lywodraethu gwybodaeth.

44 Mae'r gyfradd gydymffurfio wrth ymateb i geisiadau rhyddid gwybodaeth wedi amrywio, a bu'n is na 70% am ddeg mis o'r flwyddyn. Er bod aelod ychwanegol o staff wedi ymuno â'r tîm, mae capasiti'r tîm LlG i uwchgyfeirio achosion o dramgwyddo i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth cyn pen 72 awr yn dal i fod yn destun pryder. Fodd bynnag, adroddwyd bod perfformiad wedi gwella'n ddiweddar yn sgil newid prosesau. Bellach, 95% yw'r targed cenedlaethol ar gyfer y gyfradd cydymffurfio â hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cyrraedd y targed eto, ond y mae wedi symud yn nes ato, felly erbyn mis Awst 2018 roedd 85% o staff wedi cwblhau hyfforddiant LlG gorfodol, o gymharu ag 83% ym mis Awst 2017, a 61% ym mis Ebrill 2016.

45 Mae'r gwasanaeth atal twyll wedi'i atgyfnerthu ar ôl trosglwyddo'r gwasanaeth i BIP Abertawe Bro Morgannwg a phenodi Arbenigwr Atal Twyll Lleol i weithio ym Mhowys o fis Medi 2017. Cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Bolisi Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd ar gyfer 2018. Fodd bynnag, dim ond y polisi atal twyll o 2015 sydd ar gael ar y rhyngrwyd. Mae erlyn tri chyflogai o'r Bwrdd Iechyd yn llwyddiannus am dwyll sylweddol yn erbyn y Bwrdd Iechyd wedi denu llawer o sylw o du'r cyfryngau. Mae'r Bwrdd wedi derbyn sawl sesiwn briffio ar y systemau a'r prosesau a oedd ar waith ar y pryd, a sicrwydd ynghylch y gwaith a gwblhawyd ers hynny i gryfhau trefniadau llywodraethu.

46 Ymarfer paru data dwyflynyddol yw'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) sydd o gymorth i ganfod achosion o dwyll a gordalu. Gwneir hynny drwy baru data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i ganfod hawliadau neu drafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Mae'n ddull hynod effeithiol o ganfod ac atal twyll a gordaliadau, ac o helpu sefydliadau i atgyfnerthu eu trefniadau ar gyfer atal twyll a llygredd.

47 Ym mis Ionawr 2017, derbyniodd y Bwrdd 2,499 o barau data yn rhan o'r ymarfer dwyflynyddol diweddaraf. Mae'r data a gaiff eu paru yn amlygu anghysondebau a all fod o gymorth i ganfod gwallau ac achosion o dwyll wrth eu hadolygu. Er nad ydym yn disgwyl i gyfranogwyr adolygu'r holl barau data, mae rhai o'r parau cyfatebol wedi'u pennu'n 'barau a argymhellir'. Ystyrir bod y parau hyn yn rhai risg uchel, felly argymhellir y dylid rhoi'r flaenoriaeth i'w hadolygu'n fuan. Argymhellwyd dros 147 o barau i'r Bwrdd Iechyd. Erbyn mis Tachwedd 2017, nid oedd y Bwrdd Iechyd ond wedi adolygu un o'r parau data a argymhellwyd. Adroddwyd ein bod yn pryderu ynghylch yr oedi hwn yn Adroddiad Archwilio Blynyddol y Bwrdd yn 2017. Fodd bynnag, ar 9 Tachwedd 2018, dim ond 21 o barau sydd wedi cael eu hadolygu, yr oedd wyth ohonynt wedi'u hargymell i'w hadolygu'n fuan. Mae a wnelo'r parau a adolygwyd yn bennaf â chyflogres a chaffael.

48 O'r 139 o barau a argymhellwyd ar gyfer credydwyr, dim ond un ohonynt sydd wedi cael ei adolygu (mae pump o barau eraill nad oeddent wedi'u hargymell i'w hadolygu'n fuan wedi cael eu hadolygu). O'r chwe phâr o daliadau credydwyr a adolygwyd, canfuwyd gordaliadau neu daliadau a oedd wedi'u gwneud ddwywaith mewn pedwar achos. Er bod y Bwrdd Iechyd wedi nodi ac adennill y gordaliadau

yn yr achosion hyn, mae'n siom na chafodd mwy o barau eu hadolygu, oherwydd mae'n bosib y byddai'n canfod mwy o ordaliadau nad oedd eisoes wedi'u canfod.

49 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ddatblygu ei ymagwedd at archwiliadau clinigol yn ystod 2018, er bod angen gwneud llawer o gynnydd cyn i'r ymagwedd honno gyfrannu'n llawn at wella ansawdd a sicrwydd y Bwrdd. Yn ein hasesiadau strwythuredig yn 2016 a 2017 adroddwyd pryderon ynghylch ymagwedd y Bwrdd Iechyd at archwiliadau clinigol. Ym mis Ebrill 2018, cyhoeddodd yr adran archwilio mewnol adroddiad sicrwydd cyfyngedig yn seiliedig ar archwiliad dilynol o'r cynnydd a wnaed wrth ymdrin â'r argymhellion o'i archwiliad blaenorol o'r rhaglen archwilio clinigol. Ymatebodd y Cyfarwyddwr Meddygol drwy greu Cynllun Gwella Archwilio Mewnol ar gyfer 2018-19 yn trafod arweinyddiaeth gorfforaethol a threfniadau rheoli gweithredol ar gyfer archwiliadau clinigol. Cymeradwywyd y cynllun hwnnw gan y Pwyllgor Gweithredol ym mis Mehefin 2018, ac fe'i trafodwyd yn y Pwyllgor Profiadau Cleifion, Ansawdd a Diogelwch ym mis Medi 2018. Mae'n cynnwys sawl cam gweithredu, y dylai llawer ohonynt gael eu cwblhau cyn diwedd y flwyddyn. Mae'r Cyfarwyddwr Meddygol a benodwyd yn ddiweddar, a'r Cyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol (Llywodraethu Clinigol) bellach yn arwain y gwaith hwn a ddylai fynd rhagddo ynghynt o hyn allan gan fod mwy o adnoddau ar gael ar ei gyfer.

50 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth ymdrin ag argymhellion archwilio'r adran archwilio mewnol mewn modd amserol. Ym mis Tachwedd 2018, adroddodd Ysgrifennydd y Bwrdd mai ond chwe argymhelliad oedd yn weddill o 2016-17, a bod yr holl argymhellion eraill naill ai wedi'u gweithredu neu eu disodli gan argymhellion a wnaed yn adroddiadau archwilio 2017-18. Adroddodd y Bwrdd Iechyd ei fod ar y trywydd iawn i gyflawni'r argymhellion o 2017-18 a 2018-19.

### Sicrhau bod y dyluniad trefniadol yn cefnogi llywodraethu effeithiol

51 Buom yn edrych ar y modd y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei drefnu ei hun i gyflawni amcanion strategol ar y cyd gan sicrhau llinellau atebolrwydd clir ar gyfer cyflawni ar yr un pryd. Gwelsom fod **newidiadau portffolio ymhlith tîm y Weithrediaeth a threfniadau i gryfhau trefniadau dirprwyo i ddirprwyon yn cefnogi llywodraethu effeithiol.**

52 Bu nifer sylweddol o newidiadau i Gyfarwyddwyr Gweithredol a phortffolios yn ystod 2018. Cafodd cyfrifoldebau dros Iechyd Sylfaenol, Iechyd Cymunedol ac Iechyd Meddwl eu rhannu ar ddechrau'r flwyddyn fel bod y Cyfarwyddwr Nyrsio yn dod yn Gyfarwyddwr Gofal Cymunedol ac Iechyd Meddwl Dros Dro, a'r Prif Weithredwr yn cymryd cyfrifoldeb dros ofal sylfaenol, gyd a chefnogaeth Cyfarwyddwr y Rhaglen Gofal Sylfaenol, a ddarparai gefnogaeth ychwanegol ar gyfer gofal sylfaenol gan wella ymgysylltu a datblygiad clystyrau. Cyflawnwyd rôl y Cyfarwyddwr Nyrsio gan weithiwr ar secondiad o Iechyd Cyhoeddus Cymru drwy drefniant dros dro. Ym mis Medi cytunwyd y dylid hysbysebu am Gyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Chymunedol a Iechyd Meddwl/Anableddau Dysgu, ac mae'r rôl hon bellach yn cael ei chyflawni drwy drefniant dros dro gan weithiwr ar secondiad o Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Yn sgil newid y portffolios, bu modd ystyried materion sefydliadol o'r newydd, ac mae hyn wedi bod yn sail ddefnyddiol ar gyfer cam nesaf y gwaith o ddylunio'r sefydliad i gyd-fynd â'r strategaeth iechyd a gofal.

53 Daeth secondiad y Cyfarwyddwr Nyrsio i ben yn ddiweddar. Mae'r Cyfarwyddwr Nyrsio parhaol wedi dychwelyd i'r swydd ac ychwanegu cyfrifoldeb dros dro am therapïau ers i'r Cyfarwyddwr Therapïau adael y sefydliad, ac ni fu'r broses o recriwtio i'r swydd honno'n llwyddiannus hyd yma. Gwelwyd newid sylweddol yn rôl y Cyfarwyddwr Meddygol hefyd dros y pum mlynedd nesaf. Dechreuodd Cyfarwyddwr Meddygol newydd yn ystod y flwyddyn, ynghyd â Chyfarwyddwr Meddygol

Cynorthwyol, a ddylai greu mwy o sefydlogrwydd. Ysgwyddodd Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol hefyd gyfrifoldebau newydd dros gyfleusterau a thân.

54 Dywedodd y Prif Weithredwr eu bod yn cynnal adolygiad er mwyn canfod sut i ddarparu adnoddau ychwanegol ar gyfer comisiynu i'r Gyfarwyddiaeth Cynllunio a Pherfformiad er mwyn cefnogi uchelgais y sefydliad i ganolbwyntio ar newid strategol drwy gomisiynu systemau cyfan. Yn fwy cyffredinol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cael rhywfaint o lwyddiant wrth lenwi rolau Dirprwy Gyfarwyddwr i gefnogi'r Cyfarwyddwyr Gweithredol gan sicrhau cydnerthedd a chynllunio ar gyfer olyniaeth. Mae'r swyddi sy'n cael eu llenwi ym maes iechyd cyhoeddus, cyllid, y gweithlu datblygu trefniadol, a gofal sylfaenol ac iechyd meddwl. Mae cynlluniau hefyd yn cael eu datblygu i gyflwyno newidiadau i ddyluniad trefniadol er mwyn sicrhau bod adnoddau wedi'u halinio'n well ag amcanion ar bob lefel, ac y byddant yn cael eu gweithredu yn 2019. Mae'r ffaith bod cyflogau aelodau uwch o'r staff yn is na staff cyfatebol mewn Byrddau Iechyd eraill yn dal i fod yn broblem, gan olygu bod staff yn gadael i dderbyn cyflog gwell mewn sefydliadau eraill. Rydym yn deall bod Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd wedi mynegi pryder wrth Lywodraeth Cymru ynghylch hyn.

## Cynllunio strategol

55 Wrth ein gwaith, buom yn archwilio'r modd y mae'r Bwrdd yn pennu amcanion strategol ar gyfer y sefydliad. Buom yn asesu'r graddau y mae'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio sut y bydd yn cyflawni ei amcanion, gan ddefnyddio cyllid, pobl ac adnoddau eraill sydd ganddo, neu y gall eu darparu. Roeddem am wybod a oedd yr amcanion wedi'u seilio ar ddadansoddiad cadarn o gostau, adnoddau ac arbedion. Gofynnwyd hefyd a oedd digon o gysylltiadau rhwng cynlluniau, yn allanol ac yn fewnol, ac a oeddent yn seiliedig ar wybodaeth dda, yn realistig ac yn cynnwys terfynau amser. Yn olaf, roeddem am wybod a oedd y Bwrdd Iechyd yn monitro cynnydd y cynlluniau hyn yn effeithiol.

56 Canfuom fod **gwaith cynllunio strategol y Bwrdd Iechyd yn gynyddol systematig, a bod y mecanweithiau ar gyfer monitro gweithrediad yn gwella. Y mae hefyd yn rhoi ymagwedd newydd ar waith er mwyn trosi ei CTCI yn weithredoedd.**

57 Buom yn edrych ar y modd y mae'r Bwrdd yn mynd ati i bennu ei flaenoriaethau wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, ac yn nodi'r rheiny mewn CTCI clir. Mae gan y Bwrdd Iechyd CTCI a gymeradwywyd gan y Bwrdd a Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-2021. Dyma'r bedwaredd flwyddyn yn olynol i CTCI y Bwrdd Iechyd gael ei gymeradwyo. Cafodd CTCI 2018-2021 ei ail-drefnu'n seiliedig ar yr wyth amcan llesiant i'w alinio â Strategaeth Iechyd a Gofal deng mlynedd Powys a gymeradwywyd yn 2017. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio ar bum maes allweddol: datblygu canolfannau rhanbarthol, integreiddio a gwaith integredig, datblygu gofal sylfaenol mewn ardaloedd gwledig, datblygu deilliannau a chomisiynu systemau cyfan, a rhoi dulliau digidol yn gyntaf.

58 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio fel rhan o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) Powys a luniodd y ddogfen **Gwireddu'r Weledigaeth - Cyflawni ein Dyletswyddau yng Nghyswllt y Cyd-gynllun Ardal** a **Tuag at 2040, y Cynllun Llesiant**, gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Powys. Cymeradwyodd y Bwrdd y ddwy ddogfen ar yr un pryd â'r CTCI ym mis Mawrth 2018.

59 Mae'r strategaeth ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi cael ei sefydlu ers 2015. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni gwaith ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid wrth ddatblygu ei gynlluniau. Mae'n cynnal tua 40 o ddigwyddiadau bob blwyddyn, gan ymweld â phob un o'r 13 o ardaloedd cymunedol ym Mhowys o leiaf deirgwaith y flwyddyn. Yn adroddiad yr adran archwilio mewnol ym mis Awst 2018, **CTCI - Fframwaith Cyd-gynllunio**, amlygwyd bod y gwaith ymgysylltu hwn wedi creu darlun da i'r Bwrdd Iechyd o anghenion a gofynion poblogaeth Powys. Mae'r Cyngor Iechyd Cymuned hefyd wedi

adrodd ar ei waith ymgysylltu â'r swyddogaeth gynllunio mewn sawl digwyddiad. Mae'n rhy gynnar i farnu i ba raddau y bydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid sydd newydd ei sefydlu yn cefnogi gwaith ymgysylltu, gan nad yw ond wedi cyfarfod unwaith ers ei ailsefydlu ym mis Medi 2018.

60 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynhyrchu fersiwn hawdd ei darllen o'r CTCI bob blwyddyn. Fodd bynnag, nid yw gwefan y Bwrdd Iechyd yn darparu unrhyw wybodaeth gyfredol ynghylch sut y gall y cyhoedd gymryd rhan yn y broses o newid gwasanaethau. Yn arolwg staff diweddar y GIG, adroddwyd lefelau uchel o ymgysylltu a chyfathrebu.

61 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ddylanwadu ar y rhaglenni newid strategol niferus sydd ar y gweill yn y sefydliadau a ddefnyddir gan gleifion Powys. Bydd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad yn rhoi diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad a'r Bwrdd ynghylch newid strategol yn y gwasanaethau a gomisiynir.

62 Buom yn ystyried dull y Bwrdd Iechyd o ddatblygu'r cynllun strategol, ac a oes strategaethau a chynlluniau priodol yn tanategu'r cynllun hwnnw sydd yn seiliedig ar ddadansoddiad o gostau, adnoddau ac arbedion. Dechreuwyd cynllunio ar gyfer CTCI 2019-2021 yn gynharach yn y flwyddyn drwy gynnal gweithdy 'cyflawni ein cynllun' ym mis Gorffennaf 2018. Roedd 40 aelod staff is na lefel y Weithrediaeth yn bresennol yn y gweithdy hwnnw. Lluniwyd amserlen o ddigwyddiadau ar gyfer gweddill y flwyddyn, gan gynnwys diwrnodiau datblygu'r Bwrdd a gweithdai i'r cyfarwyddiaethau er mwyn cefnogi datblygiad y cynlluniau cyfarwyddiaeth. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi sut y bydd yn alinio ei gynlluniau trawsnewid â dogfen **Cymru Iachach**.

63 Mae gwaith yn cael ei gyflawni ar newid clinigol, o dan ymbarél 'ymdrin â'r 4 mawr', sef iechyd meddwl, canser, cyflyrau anadlol a chyflyrau cylchredol. Bydd y Bwrdd Iechyd yn dechrau datblygu cynllun clinigol yn y misoedd nesaf, gyda ffocws ar y model meddygol mewn ysbytai cymunedol, gan edrych ar ddulliau newydd o weithio drwy ymagwedd tîm amlddisgyblaeth. Mae'r llais clinigol wedi cael ei gryfhau drwy'r cyfarwyddwr meddygol a benodwyd yn ddiweddar, gyda chefnogaeth gan y cyfarwyddwyr clinigol a meddygol cynorthwyol.

64 Ffocws neilltuol y gwaith newid eleni yw datblygiad Canolfan Ranbarthol Gogledd Powys yn y Drenewydd. Mae gweithdai yn cael eu cynnal i ddatblygu'r themâu gan anelu i sefydlu cynllun ar gyfer campws iechyd a gofal cyn diwedd 2018-19.

65 Cymeradwyodd Cyngor Sir Powys Gyd-Strategaeth TGCh Powys ar gyfer 2018-2020 yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, ni chymeradwywyd y strategaeth honno gan y Pwyllgor Rheoli Gwybodaeth, Technoleg a Llywodraethu ym mis Mai 2018, gan fod aelodau'r Pwyllgor am gael cynllun strategol sy'n cynnwys teleofal a dyfodol digidol, sy'n cael eu datblygu yn rhan o broses y CTCI. Nid yw'r strategaeth wedi cael ei hailgyflwyno i'r Pwyllgor felly nid oes cyd-strategaeth gyfredol ar gyfer TGCh. Dylai'r Bwrdd Iechyd gytuno ar ei weledigaeth strategol ar gyfer TGCh cyn gynted ag sy'n bosibl, fel bod ganddo gyfeiriad clir i'w ddefnyddio'n sail ar gyfer cynlluniau a threfniadau gweithredol y presennol a'r dyfodol.

66 Yn olaf, buom yn ystyried a yw'r cynnydd wrth weithredu cynlluniau strategol a rhaglenni cefnogi newid strategol yn cael eu monitro'n effeithiol. Gwelsom fod y Bwrdd Iechyd yn gwella ei drefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar ei CTCI. Mae'r Grŵp Cyflawni a Pherfformiad, a chanddo bwerau wedi'u dirprwyo gan y Bwrdd, yn goruchwylio cyflawniad amcanion sefydliadol drwy fonitro ac adolygu perfformiad gweithredol, a gweithredu mesurau unioni lle bo angen. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu rhaglen o adolygiadau o berfformiad cyfarwyddiaethau. Ddwywaith y flwyddyn, bydd tîm y Weithrediaeth yn dwyn y cyfarwyddiaethau i gyfrif am gyflawniad yn erbyn y cynllun a mesurau gwella perfformiad cytunedig. Y fforwm hwn hefyd sy'n cefnogi datblygiad cynlluniau integredig.

67 Yn ein hasesiad strwythuredig blaenorol, adroddwyd bod y Prif Weithredwr wedi penodi Operasee i gynnal adolygiad o'r model gweithredu cyfredol yn y Gyfarwyddiaeth Gofal Sylfaenol a Chymunedol ac Iechyd Meddwl er mwyn asesu'r capasiti a'r gallu i gyflawni'r CTCI. Dengys canfyddiadau Operasee nad yw'r CTCI yn cael ei weithredu'n effeithiol. Ym mis Medi 2018, derbyniodd Pwyllgor y Gweithlu a Datblygu Trefniadol gyflwyniad ar brif ganfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad. Amlygai'r cyflwyniad nifer o bryderon ynghylch y modd y cynhelir busnes, ee gormod o gyfarfodydd. Ym mis Tachwedd 2018, hysbysodd y Prif Weithredwr y Bwrdd fod gwaith sylweddol wedi'i gyflawni dros y ddau fis diwethaf er mwyn ymgysylltu â chydweithwyr ar draws y Bwrdd Iechyd ar y Fframwaith Datblygu Trefniadol. Bydd y fframwaith hwn, a gyflwynir gerbron y Bwrdd ym mis Ionawr 2019, y amlinellu'r meysydd sydd i'w halinio a'u datblygu er mwyn i'r sefydliad gyflawni orau yr amcanion sydd wedi'u nodi yn y Strategaeth Iechyd a Gofal.

68 Mae'r trefniadau monitro ac adrodd yn ddigonol i raddau helaeth. Cafodd fformat adroddiadau perfformiad integredig ei ddiwygio ar ddechrau 2018-19, yn sgil symud tuag at wyth o amcanion llesiant. Darperir gwybodaeth am berfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn targedau Fframwaith Canlyniadau'r GIG 2018-19 Llywodraeth Cymru a mesurau o gynnydd yn erbyn yr hyn a weithredwyd o CTCI 2018-19. Mae'r gosodiad wedi gwella ac erbyn hyn yn cynnwys gwybodaeth feincnodi fel bo modd cymharu â sefydliadau tebyg. Cyflwynir adroddiadau bob chwarter gerbron Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad, cyn i'r adroddiadau hynny gael eu cyflwyno i'w trafod gerbron y Bwrdd.

69 Ym mis Tachwedd 2018, derbyniodd y Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad adroddiad ar y cynnydd yn erbyn y cynlluniau cyflawni cenedlaethol dros y chwe mis blaenorol. Fodd bynnag, nid oedd yn cynnwys crynodeb i amlygu'r prif negeseuon, ac roedd hynny'n ei gwneud hi'n fwy anodd i aelodau annibynnol gael sicrwydd.

## Trefniadau ehangach sy'n cefnogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau

70 I raddau helaeth, mae defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau yn dibynnu ar drefniadau'r sefydliad ar gyfer rheoli ei gyllid, ei weithlu, gwella perfformiad, effeithlonrwydd a chynhyrchiant ac ystadau ac asedau ffisegol eraill. Yn yr adran hon, byddwn yn rhoi sylwadau ar y trefniadau hynny. Ar y cyfan, canfuom fod y Bwrdd Iechyd **yn gweithio'n galed i ymdrin â heriau o ran y gweithlu, yn cynnal ei berfformiad ariannol ar y cyfan, ond yn wynebu heriau o ran cyflwr yr ystâd a rheoli cyfarpar meddygol.**

### Rheoli'r cyllid

71 Buom yn ystyried rheoli ariannol a chyllidebau, rheolaethau ariannol, a chefnogaeth a phrosesau gweithredol. Er bod y **Bwrdd Iechyd yn parhau i fantoli'r gyllideb, gwelsom fod angen gwella agweddau ar lywodraethu a rheoli ariannol o hyd.**

72 Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi llwyddo i reoli ei adnoddau ariannol yn dda, ac ar ddiwedd 2017-18, adroddodd danwariant o £96,000 yn erbyn y terfyn adnoddau refeniw o £293.7 miliwn.

73 Mae gan y Bwrdd Iechyd CTCI cymeradwy ar gyfer 2018-2021 sy'n rhagweld y bydd y Bwrdd Iechyd yn mantoli'r gyllideb dros y tair blynedd ariannol nesaf. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys y diffyg a ragwelwyd o £3.5 miliwn yn 2018-19. Yn rhan o'r cynllun i fantoli'r gyllideb yn 2018-19, mae'r

Bwrdd Iechyd wedi pennu cyfanswm o £3.371 miliwn fel targed arbedion, ac wedi nodi camau pellach untro i gau'r diffyg gwreiddiol o £3.5 miliwn. Ym mis 7, roedd y Bwrdd Iechyd wedi gorwario £1.88 miliwn, ac roedd bwlch o £0.910 miliwn rhwng hynny a phroffil y cynllun i fantoli'r gyllideb. Y mae wedi sicrhau arbedion o £1.429 miliwn yn erbyn y targed yn y flwyddyn hyd hynny o £1.937 miliwn, sydd yn ddiffyg o £0.508 miliwn. Yn ôl y rhagolygon, bydd y Bwrdd Iechyd yn cyflawni £3.096 miliwn yn erbyn y targed o £3.371 miliwn, sy'n golygu y rhagwelir diffyg o £0.275 miliwn. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn edrych ar opsiynau amrywiol ac ym mis 7 y mae'n dal yn hyderus y bydd yn llwyddo i fantoli'r gyllideb ar gyfer 2018-19.

74 Mae proses y gyllideb refeniw wedi bod yn datblygu dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, ni anfonwyd llythyrau ynghylch y gyllideb at Dîm y Weithrediaeth hyd fis Mehefin 2018, yn sgil newidiadau i bortffolios Tîm y Weithrediaeth. Ym mis Tachwedd 2018, nid oedd holl lythyrau'r gyllideb wedi'u llofnodi. Mae hyn yn groes i'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, ac o hyn allan mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau ei fod yn darparu llythyrau'r gyllideb yn brydlon, a'u bod wedyn y cael eu llofnodi gan ddeilydd y gyllideb cyn dechrau'r flwyddyn ariannol.

75 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth ddatblygu cynlluniau arbed, ond ceir cyfleoedd am welliannau pellach. Mae'r Partneriaid Busnes yn cymryd rhan yn llawn yn y gwaith o ddatblygu cynlluniau arbed ac o fonitro ac adrodd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod manylder a fformat y cynlluniau yn amrywio rhywfaint, a bod hynny fel arfer yn dibynnu ar lefel yr arbedion a dargedir. Ceir rhywfaint o amrywio ar draws meysydd gweithredol o ran fformat, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y gellid safoni hyn.

76 Mae proses y gyllideb cyfalaf wedi bod yn datblygu dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac erbyn hyn ceir system gadarn sy'n sgorio ceisiadau am wariant cyfalaf dewisol yn ôl meini prawf a ragnodir, cyn i banel annibynnol adolygu'r ceisiadau hynny. Fel hyn gellir sicrhau bod prosiectau priodol yn cael y flaenoriaeth. Ym mis Mawrth 2018, cyflwynwyd papur lefel uchel gerbron y Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad ar brosiectau a chyfarpar y rhaglen waith gwariant cyfalaf, fel y nodwyd i'w cyflawni ym mlwyddyn ariannol 2018-19, a chytunodd y Pwyllgor y dylid cyflwyno'r papur i'w gymeradwyo gerbron y Bwrdd. Yng nghyfarfod dilynol y Bwrdd, cymeradwywyd y rhaglen gyfalaf yn unol â gofynion y cyfarwyddiadau ariannol sefydlog. Yn ystod y flwyddyn, bydd y Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad yn derbyn y newyddion diweddaraf yn rheolaidd ynghylch statws y rhaglen Gyfalaf a gweithgarwch rhaglenni cysylltiedig a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sy'n rhoi sicrwydd ei fod ar y trywydd iawn i gyflawni'r rhaglen.

77 Nid oes unrhyw gofnod ffurfiol i dystio bod y Bwrdd wedi diwygio'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, ac mae'r fersiwn gyfredol yn cadw at gyfarwyddiadau enghreifftiol 2016 i Gymru gyfan. Y bwriad yw diweddaru'r rhain yn unol â'r gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd ar raddfa Cymru gyfan. Yn ôl y Rheolau Sefydlog, dylid adolygu'r Rheolau Sefydlog a'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog bob blwyddyn o leiaf. Drwy ein hadolygiad o'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, amlygwyd bod angen eu diweddaru, gan fod 'i'w gadarnhau' wedi'i nodi yn adran 16 o'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ac, oherwydd newidiadau i Dîm y Weithrediaeth, nad yw'r rhestr o bortffolios cyfredol yn gywir.

78 Yn y gorffennol, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd wedi codi pryderon ynghylch defnyddio hepgoriadau tendr sengl ôl-weithredol. Rhwng mis Ebrill 2017 a mis Medi 2018, cyflwynwyd 18 o hepgoriadau tendr sengl arfaethedig, a phump o hepgoriadau ôl-weithredol gerbron y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. Mae nifer yr hepgoriadau tendr sengl yn gostwng a'r Pwyllgor yn cadw golwg fanwl ar y sefyllfa er mwyn sicrhau nad ydynt ond yn cael eu defnyddio pan fydd gwir angen amdanynt.

79 Yn ôl Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad, dylai'r Pwyllgor 'fonitro perfformiad ariannol yn erbyn cyllidebau refeniw' yn ogystal â 'monitro cynnydd cynlluniau arbed a rhaglenni gwella costau'. Mae gan y Pwyllgor felly raglen dreigl lle caiff targedau arbed ar gyfer maes penodol eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor a gwahoddir Arweinydd Gweithredol i roi'r diweddaraf i'r Pwyllgor ar y cynnydd hyd hynny. Er inni weld bod y broses hon wedi dechrau'n dda yn 2017, ynghyd â'r cynlluniau arbed comisiynu ym mis Mehefin 2018, nid oedd cyflwyniad mis Awst 2018 ar Ofal Sylfaenol mor fanwl, o ran yr ymdriniaeth â'r arbedion, nac ychwaith o ran yr her ddilynol gan y Pwyllgor.

80 Mae adroddiadau cyllid misol y Bwrdd Iechyd yn cynnwys y ffurflen fonitro, fel y cafodd ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru (yn llawn ar ffurf atodiad), yn ogystal â phapur penodol sy'n manylu ar faterion allweddol. Adroddir y mis diweddaraf sydd ar gael gerbron cyfarfod nesaf y Bwrdd neu'r Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad er mwyn sicrhau yr adroddir gwybodaeth mewn modd amserol. Rhwng mis Gorffennaf 2017 a mis Medi 2018, darparwyd yr holl adroddiadau cyllid misol i'r Bwrdd o flaen y Pwyllgor, gan olygu nad oedd y Pwyllgor yn gallu craffu'n fanylach ar yr wybodaeth ariannol a ddarparwyd cyn i'r wybodaeth honno gael ei chyflwyno i gyfarfod y Bwrdd.

81 Mae 'methiant gwasanaeth mewn gofal GMS y tu allan i oriau' yn risg uchel i'r Bwrdd Iechyd, ers i bryderon godi ynghylch hyfywedd ariannol gwasanaeth y tu allan i oriau Shropdoc yn nhymor yr haf 2017. Dyfarnodd Grŵp Comisiynu Clinigol (GCC) Swydd Amwythig a GCC Telford a Wrekin am ddarparu gwasanaethau y tu allan i oriau i bartneriaeth cyflenwi Shropdoc ac Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cymunedol Swydd Amwythig (Shropcom) ym mis Gorffennaf 2018. Mae gan y Bwrdd gontract ar gyfer gwasanaeth wyneb yn wyneb Shropdoc hyd 31 Mawrth 2019, ac fe gynhaliwyd y broses o drosglwyddo i wasanaeth trin galwadau Cymru 111 ym mis Hydref 2018. Mae Grŵp Cynghori Clinigol y Bwrdd Iechyd yn ystyried opsiynau ar gyfer y gwasanaeth ar ôl Mawrth 2019, ac mae'r Bwrdd Prosiect y Tu Allan i Oriau yn cyfarfod yn rheolaidd i fonitro'r gwasanaeth 111, ac yn ystyried cynnal arfarniad o opsiynau ar gyfer trefniadau caffael a model diwygiedig tymor hwy ar gyfer y gwasanaeth wyneb yn wyneb. Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad wedi cael yr wybodaeth ddiweddaraf drwy gydol y broses, a briffiadau a thrafodaethau manylach wedi cael eu cynnal yn yr is-bwyllgor Sicrwydd y Tu Allan i Oriau, a gaiff ei gadeirio gan yr Is-gadeirydd.

## Rheoli'r gweithlu

82 Y gweithlu yw ased mwyaf y Bwrdd Iechyd, yn bennaf gan fod cyflogau i gyfrif am gyfran sylweddol o'i wariant. Mae'n bwysig sicrhau bod y gweithlu yn gynhyrchiol ac wedi'i reoli'n dda, gan fod staff yn hollbwysig er mwyn darparu gwasanaethau o ddydd i ddydd, ac er mwyn sicrhau arbedion effeithlonrwydd a gwella ansawdd. Gwelsom fod y **Bwrdd Iechyd yn gwella'r trefniadau ar gyfer rheoli a chefnogi staff, ond bod lle i wella mesurau perfformiad allweddol**.

83 Mae gan Gyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol dîm llawn o gyfarwyddwyr cynorthwyol a staff cymorth. Yn y tabl canlynol, dangosir perfformiad y Bwrdd Iechyd yng nghyswllt rhai mesurau allweddol, o gymharu â chyfartaledd Cymru. Yn Nangosyn 1 gwelir bod perfformiad y Bwrdd Iechyd yn well na chyfartaledd Cymru o ran absenoldeb salwch, arfarniadau a hyfforddiant statudol a gorfodol. Mae'r cyfraddau swyddi gwag a throsiant yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Dangosyn 1: perfformiad yn erbyn mesurau allweddol y gweithlu, Gorffennaf 2018[1]

| Mesurau'r gweithlu | Y Bwrdd Iechyd | Cyfartaledd Cymru |
|---|---|---|
| Absenoldeb oherwydd salwch | 4.6% | 5.3% |
| Trosiant | 12.1% | 6.9% |
| Swyddi Gwag | 2.9% | 2.6% |
| Arfarniadau | 79% | 67% |
| Hyfforddiant statudol a gorfodol | 78% | 73% |

Ffynhonnell: Dangosfwrdd Gweithlu GIG Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Gorffennaf 2018

84 Mae'r Bwrdd Iechyd yn perfformio'n well o ran absenoldeb salwch o gymharu â chyfartaledd Cymru ar hyn o bryd, ond mae'r cyfartaledd 12 mis treigl cyfredol yn uwch na'r targed o 4.42%. Mae absenoldeb salwch misol yn dangos amrywiad tymhorol gyda chyfraddau is yn yr haf o'i gymharu â'r gaeaf. Er bod y cyfartaledd dros gyfnod treigl o 12 mis yn amrywio rhyw fymryn, nid yw'r gyfradd wedi newid ar y cyfan dros y 12 mis diwethaf. Dros y 12 mis diwethaf, cafodd 1,875 o episodau o absenoldeb salwch eu cofnodi, a chanlyniad hynny oedd colli 26,644 o ddiwrnodiau cyfwerth ag amser llawn ar gost o £2.59 miliwn. Amcangyfrifir bod hyn yn gyfwerth ag 13 o aelodau staff CALl. Y prif resymau dros absenoldeb yw gorbryder/straen/iselder/mathau eraill o salwch seiciatrig' a 'phroblemau eraill cyhyrysgerbydol (ac eithrio problemau cefn)'. Mae'r rhain i gyfrif am 42% o'r holl episodau o absenoldeb salwch.

85 Mae oddeutu 3.5% o absenoldeb salwch wedi'i gynnwys yn y categori hirdymor. Ni cheir diffiniad o salwch hirdymor yn unrhyw ran o'r adroddiad, ond tybir bod salwch o'r fath yn parhau am gyfnod o 28 diwrnod neu fwy. Mae Partneriaid Busnes a Chynghorwyr AD yn parhau i fonitro achosion o salwch hirdymor, a amlygir drwy draciwr llwyth achosion wythnosol, ac yn cynnal adolygiadau pythefnosol yn unol â'r Polisi Absenoldeb Salwch. Mae'r Partneriaid Busnes yn monitro lefelau salwch yn barhaus ac yn cydweithio â rheolwyr i ganfod ymyraethau targededig.

86 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod yn ymrwymedig i ofalu am iechyd a llesiant ei staff yn fwy cyffredinol ac, ar adeg ein harchwiliad, yr oedd yn gweithio i adnewyddu ei wobr aur am y Safon Iechyd Corfforaethol yn gynnar yn 2019. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cyflwyno sawl menter i gefnogi'r staff, ac mae'r rhain yn cynnwys: mynediad cyflym at wasanaethau iechyd galwedigaethol, mynediad cyflym drwy hunangyfeirio i wasanaethau ffisiotherapi, mynediad ar-lein i raglen therapi ymddygiad gwybyddol o'r enw SilverCloud a darparydd gwasanaeth cwnsela newydd i'r staff. Mae'r mynediad at iechyd galwedigaethol wedi gwella, gyda'r amseroedd aros i weld y meddyg iechyd galwedigaethol yn gostwng o uchafbwynt o naw mis i bedair wythnos. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cynnig seibiannau Llesiant yn y Gwaith i'w gyflogeion. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd wneud mwy i ddeall pam nad yw ei gamau gweithredu wedi arwain at ostyngiad yn y gyfradd absenoldeb salwch.

[1] Salwch: cyfartaledd treigl dros 12 mis ym mis Gorffennaf 2018; Trosiant: cyfnod o 12 mis o fis Gorffennaf 2017 hyd fis Mehefin 2018; Swyddi gwag yn seiliedig ar y swyddi a hysbysebwyd ym mis Gorffennaf 2018; Arfarnu: y 12 mis blaenorol ym mis Gorffennaf 2018; Hyfforddiant statudol a gorfodol: ym mis Gorffennaf 2018

87 Y llynedd, nodwyd bod cyfradd drosiant y Bwrdd Iechyd dros gyfnod treigl o 12 mis yn cynyddu ac yn uwch na'r gyfradd drosiant gyfartalog ar gyfer byrddau iechyd eraill yng Nghymru. Dengys data cymharol ar gyfer eleni fod y gyfradd drosiant dros gyfnod treigl o 12 mis yn parhau i godi, gan gyrraedd y gyfradd uchaf yng Nghymru ym mis Gorffennaf 2018, ar 12.1%. Yn adroddiad y Bwrdd Iechyd ar gyfer mis Medi 2018, nodir mai 11.15% oedd y trosiant treigl ym mis Gorffennaf 2018, sydd yn wahanol i'r hyn a adroddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer yr un cyfnod o amser. Er bod y trosiant yn uwch na'r cyfartaledd, mae'r nifer cyfartalog o swyddi gwag a hysbysebir yn unrhyw fis penodol yn gymharol fach o gymharu â byrddau iechyd eraill yng Nghymru.

88 Yn asesiad strwythuredig y llynedd, argymhellwyd y dylai'r Bwrdd Iechyd ganfod rhesymau pam bod ei gyfradd drosiant yn uchel. O adolygu ei drosiant staff, gwelwyd mai 'ymddiswyddo gwirfoddol - arall/anhysbys' oedd y rheswm a roddwyd gan amlaf gan 41% o ymadawyr. Roedd tri chwarter y staff a roddodd y rheswm hwn wedi bod yn gweithio i'r Bwrdd Iechyd ers pum mlynedd neu lai; roedd y rhan fwyaf ohonynt wedi bod yn gweithio am gyfnod llai na blwyddyn, a dwy ran o bump yn 50 oed neu'n hŷn. Nododd 25% o ymadawyr mai er mwyn ymddeol yr oeddent yn ymadael â'u swydd. Ar sail yr wybodaeth am drosiant a gyflwynwyd gerbron Pwyllgor y Gweithlu a Datblygu Trefniadol ym mis Mai 2018, amcangyfrifodd y Bwrdd Iechyd fod dwy ran o bump o ymadawyr yn 50 oed neu'n hŷn. Nodai adolygiad y Bwrdd Iechyd hefyd fod ymadawyr yn aml yn cyfeirio at ddiffyg cyfle i ddatblygu gyrfa mewn holiaduron ymadael fel rheswm dros ymadael, ond nid oedd hyn bob amser yn cael ei gasglu'n fanwl gywir yn system y Cofnod Staff Electronig. Nid oes unrhyw wybodaeth yn yr adroddiad i nodi a yw'r diffyg cyfle i ddatblygu gyrfa yn gysylltiedig ag oedran.

89 Ychydig iawn o ymadawyr (9%) [2]sy'n dewis cael cyfweliad ymadael, ac ers ei adolygiad cychwynnol o drosiant, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cael rhyw lawer o lwyddiant wrth geisio cynyddu nifer y cyfweliadau ymadael a gynhelir. Mae cyfweliadau ymadael yn rhan greiddiol o'r system ESR ac mae'r prosiect cenedlaethol Cyflogi i Ymddeol wedi ymrwymo i ddatblygu ymagwedd safonedig ar gyfer GIG Cymru, y mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu ei mabwysiadu cyn hir. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi sawl menter er mwyn cael gwybodaeth well ynghylch y rhesymau dros ymadael, a chefnogi gwaith i gadw staff. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn ystyried defnyddio dangosyddion ar wahân i drosiant er mwyn mesur y gallu i gadw staff, sef nifer y staff sy'n ymadael cyn pen dwy flynedd ar ôl iddynt gael eu penodi, a'r nifer sy'n newid rôl o fewn y sefydliad cyn pen dwy flynedd ar ôl ymuno. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dal heb ddechrau adrodd ar y mesurau hyn.

90 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu Cynllun Gweithredu Recriwtio a Chadw, a fydd yn cael i gwblha'n derfynol erbyn diwedd mis Tachwedd 2018. Bu'r Grŵp Strategol ar gyfer Recriwtio a Chadw Staff yn cydweithio i nodi tri maes â blaenoriaeth i'w hystyried dros y 12 mis nesaf. Mae'r rhain yn manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael: gwella'r modd yr ydym yn hyrwyddo'r Bwrdd Iechyd; a'r ymagwedd 'Meithrin Ein Hunain'. Mewn stori a adroddwyd gan aelod o staff wrth y Pwyllgor Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, amlygwyd yr anhawster a gaiff myfyrwyr wrth ennill lleoliadau gwaith ym Mhowys, er i'r lleoliadau hynny fod yn llwyddiannus gan arwain at dderbyn swyddi parhaol.

91 Mae gwaith ar y gweill i wella cydymffurfiaeth ag arfarniadau blynyddol a'r broses adolygiadau datblygu perfformiad (PADR) ar gyfer staff anfeddygol ac anddeintyddol. Ym mis Gorffennaf 2018, roedd perfformiad y Bwrdd Iechyd (79%) yn well na chyfartaledd Cymru (67%) Dengys data ar gyfer mis Medi fod y gyfradd gydymffurfio ar gyfer staff anfeddygol ac anddeintyddol bellach ar 83%, sydd

[2] Yn seiliedig ar yr wybodaeth am drosiant a gyflwynwyd i Bwyllgor y Gweithlu a Datblygu Trefniadol, amcangyfrifwn fod y 24 aelod o staff a ddewisodd gymryd rhan mewn cyfweliadau ymadael i gyfrif am 9% o'r ymadawyr.

fymryn yn is na'r targed cenedlaethol (85%). Adroddodd mwyafrif y staff (90%) a ymatebodd i arolwg staff GIG Cymru 2018 eu bod wedi derbyn PADR yn y 12 mis diwethaf, o gymharu ag 84% yn 2016. Ym mis Gorffennaf, 78% oedd y gyfradd gydymffurfio gyffredinol â hyfforddiant statudol a gorfodol (hy, y fframwaith hyfforddi sgiliau craidd) Er bod hyn yn is na tharged GIG Cymru (85%), dengys data mis Medi welliant pellach gyda'r gyfradd gydymffurfio ar 82% erbyn hynny.

92 Cafwyd cydymffurfiaeth o 93% â'r arfarniad meddygol/deintyddol yn 2017-18. Caiff meddygon sy'n gweithio ym Mhowys eu cyflogi'n fynych gan gyrff iechyd eraill. Fel y prif gyflogwr, mae angen i'r Cyfarwyddwr Meddygol gael mewnbwn gan y Bwrdd Iechyd i'r arfarniad, fel y nodir yng nghanllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cryfhau'r trefniadau hyn. Dywedodd y Cyfarwyddwr Meddygol wrthym nad oedd unrhyw feddygon ymgynghorol na meddygon gradd staff wedi derbyn adolygiad o gynllun swydd yn ystod y 12 mis blaenorol, ac y byddai'n bwrw ymlaen â'r gwaith hwnnw. Nid ydynt wedi profi unrhyw broblemau yn ailddilysu unrhyw un o'u meddygon. Bydd y Cyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol a benodwyd yn ddiweddar yn mabwysiadu rôl y Dirprwy Swyddog Cyfrifol ac yn datblygu cynllun gweithredu ailddilysu i gryfhau trefniadau arfarnu, cynllunio swydd ac ailddilysu i'r holl feddygon sy'n gweithio ym Mhowys.

93 Yn 2017-18, gwariant y Bwrdd Iechyd ar staff asiantaeth fel cyfradd o gyfanswm y bil cyflogau oedd 6.5%, sef yr uchaf yng Nghymru, o gymharu â 3.7% ar draws Cymru (yn amrywio rhwng 0.3% a 6.5%). Cafwyd gwariant o £3.45 miliwn yn 2016-17, ond cafwyd cynnydd o 39% yn 2017-18 gan godi'r gwariant i £4.79 miliwn. Amrywiodd y gwariant ar staff asiantaeth fel canran o gyfanswm y bil cyflogau rhwng 7% ac 8% rhwng mis Ebrill 2018 a mis Gorffennaf 2018, sef dwbl cyfartaledd Cymru. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru uchafsymiau cyflog ar gyfer meddygon asiantaeth allanol ym mis Tachwedd 2017. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gydweithio ag asiantaethau meddygol er mwyn canfod meddygon locwm ar gyfraddau sy'n is na'r uchafswm.

94 Mewn archwiliad mewnol o drefniadau'r Bwrdd Iechyd i gaffael staff ymgynghorol ac asiantaeth yn gynharach eleni, gwelwyd bod y trefniadau'n rhoi sicrwydd cyfyngedig. Ni chanfu'r adran Archwilio Mewnol unrhyw ganllawiau ar ddefnyddio Cytundebau Fframwaith nac ar ddefnyddio hepgoriadau tendr sengl; gwelwyd bod angen gwella trefniadau monitro contractau, gan gynnwys systemau i sicrhau bod contractwyr hunangyflogedig yn cydymffurfio â deddfwriaeth treth IR35, neu'r defnydd o asiantaethau oddi ar gontract. Mae gwaith ar y gweill i fynd i'r afael ag argymhellion yr adroddiad.

95 Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd ymagwedd wedi'i chanoli at reoli staff banc ac asiantaeth ar gyfer ardaloedd nyrsio cleifion mewnol ym mis Mehefin 2016, a arweiniwyd i ddechrau gan y Gyfarwyddiaeth Nyrsio. Mae'r uned staff dros dro (TSU) yn gweithio i gynyddu'r defnydd o staff banc y Bwrdd Iechyd hyd yr eithaf, gan leihau'r gwariant ar staff asiantaeth oddi ar gontract yn sgil hynny ac, o bosib, lleihau'r defnydd o asiantaethau ar yr un pryd, gan gynnal lefelau diogel o staff. Cafodd y TSU ei throsglwyddo i Gyfarwyddiaeth y Gweithlu a Datblygu Trefniadol ym mis Medi 2017, ac mae'r swyddogaethau staffio dros dro ar gyfer cyfleusterau hefyd wedi'u canoli. Mae'r TSU yn gweithio i ganoli swyddogaethau staff dros dro ar gyfer yr holl grwpiau o staff erbyn mis Rhagfyr 2018. Mae'r TSU wedi cyflwyno gwelliannau i rai trefniadau llywodraethu yn gysylltiedig â'r defnydd o staff banc ac asiantaeth, ac wedi symleiddio prosesau anfonebu. Bellach mae'n datblygu amryw o bolisïau er mwyn creu fframwaith cadarn ar gyfer defnyddio staff banc ac asiantaeth, a phroses gyflym i recriwtio i'r banc.

96 Ym mis Gorffennaf 2018, roedd yr holl staff asiantaeth yn ystod y 12 mis diwethaf wedi costio cyfanswm o £5 miliwn yr oedd 25% o'r gwariant hwnnw yn wariant oddi ar gontract, ar gyfer staff nyrsio cofrestredig yn bennaf. Nid yw asiantaethau sydd yn gweithredu ar gontract wedi gallu bodloni gofynion llanw'r Bwrdd Iechyd hyd yma. Yn sgil hynny, mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio

asiantaethau oddi ar gontract er mwyn sicrhau lefelau diogel o staff. Mae'r wybodaeth a gesglir gan y TSU yn dangos bod y galw am staff dros dro yn cynyddu, ond o safbwynt cadarnhaol, cafwyd 1% o ostyngiad yn nifer y sifftiau a lanwyd gan asiantaethau oddi ar gontract rhwng chwarter un yn 2017-18 a chwarter un yn 2018-19. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth am y TSU a gyflwynwyd gerbron Pwyllgor y Gweithlu a Datblygu Trefniadol ym mis Medi 2018 yn esbonio'r rhesymau dros y galw am staff ros dro, er enghraifft, i lenwi cyfnodau absenoldeb salwch neu swyddi gwag. Fodd bynnag, yn rhan o'r cynllun gweithredu recriwtio a chadw bydd y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar leihau'r galw am staff dros dro.

97 Mae Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff y gwasanaeth iechyd sicrhau lefel briodol o staff nyrsio lle bynnag y darperir gwasanaethau nyrsio, a sicrhau eu bod yn darparu digon o nyrsys fel bod amser ganddynt i ofalu am gleifion mewn modd sensitif. Mae'r gofyniad hwn yn cynnwys unrhyw sefyllfa lle bydd GIG Cymru yn darparu neu'n comisiynu trydydd parti i ddarparu nyrsys. O dan Adran 25A, mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod digon o nyrsys i ofalu am gleifion mewn modd sensitif yn y gwasanaethau a ddarperir ac a gomisiynir ganddo. Nid yw Adrannau 25 B, C, D, E ond yn berthnasol i wardiau meddygol a llawfeddygol acíwt i oedolion ar hyn o bryd, felly nid oes rhaid i'r Bwrdd Iechyd fodloni'r gofynion hynny. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau i fodloni gofynion adran 25A yn y gwasanaethau a ddarperir ganddo. Ar gyfer y gwasanaethau a gomisiynir ganddo, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnwys camau yn y fframwaith sicrwydd comisiynu a gaiff eu monitro yn rhan o'r data ar berfformiad a dderbynnir gan fyrddau iechyd yng Nghymru. Mewn adroddiad a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Mai 2018, nodwyd bod y broses o roi sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch lefelau staff nyrsio yn cael ei datblygu ar y pryd.

98 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau cadarnhaol i gryfhau addysg glinigol. Trosglwyddodd yr adnoddau i swyddogaeth y Gweithlu a Datblygu Trefniadol er mwyn sicrhau'r mynediad gorau bosib at adnoddau ac integreiddio â'r swyddogaethau addysg a hyfforddiant ehangach.

99 Ar y cyfan, roedd Arolwg Staff y GIG 2018 yn gadarnhaol, gyda chyfradd ymateb uchel (50% o gymharu â chyfradd ymateb Cymru gyfan o 29%). Roedd bron yr holl fesurau yn dangos symudiadau cadarnhaol o gymharu â 2016 a ffigurau Cymru gyfan. Mae'r meysydd sy'n destun pryder yn adlewyrchu cynnydd ledled Cymru ar gyfer straen a bwlio, ond maent yn dal yn sylweddol is na ffigur Cymru. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i weithredu yn sgil canlyniadau'r arolwg. Mae'r Prif Weithredwr yn cynnal sioeau teithiol CEO i drafod canlyniadau'r arolwg staff â grwpiau o staff, a chael eu syniadau er mwyn bwrw ymlaen â'r datblygiadau.

100 Mae'r Fforwm Partneriaeth Lleol wedi'i hen sefydlu ac yn cynnig mecanwaith ffurfiol sy'n galluogi rheolwyr y Bwrdd Iechyd a'r Undebau Llafur i gydweithio. Bydd cynrychiolydd y staff yn bresennol yng nghyfarfod Pwyllgor y Gweithlu a Datblygu Trefniadol. Fodd bynnag, er bod adroddiad blynyddol y Fforwm Partneriaeth Lleol ar gyfer 2017-18 yn adrodd bod y fforwm yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn fel sy'n ofynnol, bu'n rhaid gohirio un cyfarfod ym mis Tachwedd 2017 a bu'n anodd ei ail-drefnu. Mae'r gofyniad i sicrhau bod pedwar Cyfarwyddwr Gweithredol yn bresennol ym mhob cyfarfod a'r anhawster a gaiff y staff wrth geisio cael caniatâd ac amser o'u swydd i fod yn bresennol yn achosi rhai problemau. Argymhellwn y dylid cynnal adolygiad o weithrediad y Fforwm Partneriaeth Lleol er mwyn sicrhau ei fod yn dal i weithredu'n dda.

## Gwella perfformiad, effeithlonrwydd a chynhyrchiant

101 Buom yn edrych ar yr hyn y mae'r sefydliad yn ei wneud i wella perfformiad, effeithlonrwydd a chynhyrchiant. Gwelsom fod **y ffocws ar wella cynhyrchiant yn dda**.

102 Mae'r Bwrdd Iechyd yn comisiynu tri chwarter o'i wasanaethau ac yn darparu'r gweddill yn uniongyrchol. Mae'r Strategaeth Iechyd a Gofal yn cynnwys chwe egwyddor arweiniol. Un o'r egwyddorion hyn yw bod yn ddarbodus, ac fe geir cysylltiadau rhwng yr egwyddor honno â'r adran yn y CTCI ar ofal iechyd darbodus sy'n seiliedig ar werthoedd. Mae amryw o brosiectau a ffrydiau gwaith wedi cael eu sefydlu i gyflenwi iechyd a gofal darbodus, ee canolfan cydgysylltu iechyd a gofal a wardiau rhithwir.

103 Fel yr adroddwyd y llynedd, mae gan y Bwrdd Iechyd fframwaith er mwyn gwella perfformiad. Ers cytuno ar y Strategaeth Iechyd a Gofal, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymeradwyo fframwaith newydd i adrodd ar berfformiad, er mwyn helpu'r Bwrdd i fonitro cynnydd, canfod rhwystrau a risgiau i gyflawni ac asesu'r canlyniadau a'r effaith ar ddinasyddion Powys. Mae'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad yn defnyddio CHKS i feincnodi gwasanaethau ar gyfer ei adroddiadau archwilio ei hun.

104 Roedd perfformiad yn erbyn y cynllun a mesurau Llywodraeth Cymru yn dda ar ddiwedd 2017-18. Ym mhump o'r chwe nod strategol, adroddodd y Bwrdd Iechyd sgoriau gwyrdd cyfunol, ac ym mhedwar o'r pum nod strategol perthnasol cafwyd sgôr gwyrdd cyfunol yn erbyn cyflawniad targedau a mesurau perfformiad. Y meysydd nad oeddent ar y trywydd iawn oedd mynediad at wasanaethau a gomisiynir yn Lloegr ac apwyntiadau dilynol, amseroedd aros am therapïau a diagnosteg yng ngwasanaethau darparwyr Powys.

105 Fel yr adroddwyd wrth y Bwrdd ar ddiwedd chwarter un yn 2018-19, roedd cyflawniad yn erbyn y cynllun blynyddol a pherfformiad yn erbyn mesurau Llywodraeth Cymru yn dda, ac fe gafwyd sgoriau gwyrdd cyfunol ar gyfer pob un o'r wyth o amcanion llesiant. O ran cyflawni yn erbyn mesurau perfformiad, dyfarnwyd sgôr gwyrdd i bedwar o'r saith o amcanion llesiant perthnasol. Mae'r adroddiad perfformiad integredig ar gyfer chwarter dau, a drafodwyd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd 2018, yn dangos bod perfformiad ar y trywydd iawn yn gyffredinol, ond bod y risg i gyflawniad wedi cynyddu ers chwarter un.

## Rheoli'r ystâd ac asedau eraill ffisegol

106 I gloi, buom yn ystyried y modd y caiff yr ystâd a'r asedau ffisegol eu rheoli. Gwelsom fod **oedran a chyflwr yr ystâd yn parhau i achosi risg uchel; mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu ei ymagwedd hirdymor at asedau'r sector cyhoeddus ac yn targedu'r rhaglen gyfalaf er mwyn ymdrin â gofynion cydymffurfio.**

107 Mae'r cyfrifoldeb dros y gwahanol asedau wedi'i wasgar ar draws portffolios gwahanol Swyddogion Gweithredol. Mae'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad yn gyfrifol am ystadau, peiriannau a thir, gan gynnwys cadw'r gofrestr eiddo. Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid yn gyfrifol am Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh). Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol sy'n gyfrifol am y fflyd, tra bo'r Cyfarwyddwr Nyrsio yn gyfrifol am ddyfeisiau meddygol. Canfuwyd problemau sylweddol mewn archwiliad mewnol yn gysylltiedig â rheoli cyfarpar a dyfeisiau meddygol. Mae'r Bwrdd yn bwriadu mynd i'r afael â'r rhain ar frys a chyflawni gwaith i nodi miloedd o eitemau ar y gofrestr asedau meddygol.

108 Er nad oes gan y Bwrdd Iechyd strategaeth ystadau eto, mae'r Bwrdd wedi cytuno ar gyfeiriad hirdymor gwasanaethau drwy'r Strategaeth Iechyd a Gofal, ac wedi ymrwymo i ddatblygu strategaeth ystadau hirdymor yn ystod 2018-19. Mae'r Strategaeth Iechyd a Gofal yn disgrifio'r uchelgais i ddatblygu asedau'r sector cyhoeddus a ddelir gan y Bwrdd Iechyd a Chyngor Sir Powys er mwyn darparu cyfleusterau integredig pan fo angen. Yr uchelgais yw datblygu canolfannau gweledig rhanbarthol a all ddod â gwasanaethau ynghyd a gwella cynhyrchiant a threfniadau staffio. Y tair canolfan sydd wedi'u pennu yw Llandrindod ac Aberhonddu sydd yn mynd rhagddynt, a'r

Drenewydd lle bydd angen cyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gwaith i lunio achos busnes ar gyfer cyfleuster iechyd a gofal newydd integredig. Bydd canolfannau llesiant cymunedol hefyd yn cael eu datblygu i gefnogi mynediad at wasanaethau drwy bwyntiau cyswllt sengl ar gyfer apwyntiadau un stop. Dwyrain Sir Faesyfed, Machynlleth ac Ystradgynlais yw'r ardaloedd cyntaf y cytunwyd arnynt, ac mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i ddatblygu meysydd eraill. Fel sefydliad bach, mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau cyllid ychwanegol er mwyn cynyddu capasiti os yw'n bwriadu datblygu unrhyw gynlluniau newid a chyfalaf o bwys.

109 Mae'r gofrestr risg gorfforaethol yn cynnwys risg CRR5, sef bod y ffaith nad yw ystâd y Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio nac yn addas i'r diben yn amharu ar y gofal a ddarperir. Diwygiwyd y risg hon ym mis Mai 2018, ac fe'i hadolygwyd ddiwethaf ym mis Medi 2018. Dyfarnwyd sgôr uchel o 16 ar ei chyfer. Mae'r rheolaethau'n cynnwys ffocws ar ymdrin â gwelliannau cynnal a chadw a chydymffurfio er mwyn sicrhau bod amgylchedd cleifion yn ddiogel, yn briodol ac yn cyrraedd y safonau.

110 Eleni mae'r Bwrdd Iechyd wedi cwblhau arolwg chwe ffased o gyflwr yr ystâd. Bydd y proffil yn wahanol i'r blynyddoedd cynt gydag ond 62% o'r ystâd yng nghategori cyflwr B neu'n uwch, sef y gwaethaf yng Nghymru. Mae rhai o'r adeiladau mewn cyflwr gwael iawn sydd yn atal darpariaeth gwasanaeth dda. Yn ôl y cyfrifiadau cychwynnol, gallai'r gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni ar yr ystâd gostio hyd at £70 miliwn. Mae'r gwaith wedi parhau i gryfhau materion cydymffurfio sydd yn bodoli ers tro, drwy gymeradwyo polisïau diogelwch dŵr, awyru a diogelwch trydanol wedi'u cymeradwyo yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad ym mis Tachwedd 2018.

111 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi ei gynllun tair blynedd ar gyfer ystadau yn rhan o'r CTCI. Cymeradwyodd y Bwrdd y rhaglen gyfalaf ym mis Mawrth 2018 sydd yn nodi dyraniad y cyllid dewisol yn ogystal â cheisiadau cyfalaf i Lywodraeth Cymru. Y mae hefyd yn cynnwys prosiectau sydd yn yr arfaeth y gellid defnyddio unrhyw arian llithriant ar eu cyfer, os daw'r arian hwnnw i'r amlwg tua diwedd y flwyddyn. Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i sicrhau swm mawr o gyllid cyfalaf oddi wrth Lywodraeth Cymru i gefnogi'r datblygiad yn Llandrindod. Mae dyfeisiau meddygol bellach yn rhan o'r broses ceisiadau cyfalaf, a'r gynrychiolaeth nyrsio yn rhoi cyngor ynghylch hynny.

112 Mae'r trefniadau TGCh wedi cael eu cryfhau yn y Bwrdd Iechyd yn ystod y flwyddyn yn sgil cyflwyno cynllun gweithredu seiberddiogelwch, trefniadau parhad busnes TGCh, a rhywfaint o arolygon bodlonrwydd cwsmeriaid. Mae arweinydd seiberddiogelwch hefyd wedi cael ei enwebu sy'n derbyn hyfforddiant i fod yn Weithiwr Proffesiynol Diogelwch Ardystiedig ar gyfer Systemau Gwybodaeth.

113 Ymddeolodd yr aelod annibynnol a chanddo gyfrifoldeb dros TGCh yn ystod y flwyddyn, ar ôl cyfnod hir yn y swydd, a dechreuodd ei olynydd yn yr haf. Nid yw'n glir ar hyn o bryd sut y gallai'r newid hwn effeithio ar y Pwyllgor Rheoli Gwybodaeth, Technoleg a Llywodraethu, nac ar TGCh ar draws y Bwrdd Iechyd.

114 O safbwynt gweithredol, cafwyd rhai newidiadau cadarnhaol yn swyddogaeth TGCh y Bwrdd Iechyd. Ers y llynedd, mae'r adran TGCh wedi cael ei had-drefnu fel bod un tîm seilwaith bellach yn goruchwylio TGCh y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor. O hyn allan ceir pwyslais ar reoli prosesau a gwybodaeth er mwyn lleihau achosion o fethiannau unigol yn gysylltiedig â gwybodaeth am y systemau TGCh yn y naill sefydliad a'r llall.

115 Yn asesiad strwythuredig y llynedd, argymhellwyd y dylid cynnal arolwg o fodlonrwydd defnyddwyr â gwasanaethau TG. Ymatebodd y rheolwyr drwy ddweud eu bod wedi dechrau arolwg o'r ddesg gymorth, ac yn 2018 bydd y Bwrdd Iechyd yn ystyried sefydlu arolwg llawn a chyflwyno bwrdd rheoli gwasanaethau i'r Bwrdd Iechyd i fonitro, rheoli a diwygio'r cytundeb lefel gwasanaeth. Ers diwedd 2017, anfonir arolygon bodlonrwydd defnyddwyr er mwyn cael adborth am y gwasanaeth TGCh a ddarparwyd. Nid yw'r adborth yn ddienw gan fod TGCh am weld beth aeth o'i le yn achos

digwyddiadau/ceisiadau penodol naill ai drwy wirio'r tocynnau neu drwy fynd ar drywydd defnyddwyr yn uniongyrchol. Nid yw'r dadansoddiad o ganlyniadau'r arolwg fesul cwsmer ond ar gael i nifer fach o reolwyr o fewn yr adran TGCh, ac nid ydynt ar gael i'r staff gweithredol o fewn y tîm. Rhwng mis Tachwedd 2017 a mis Gorffennaf 2018, anfonwyd 3,865 o arolygon ar ôl cau tasgau a gofnodwyd gan gefnogaeth Llinell Gyntaf TGCh. Cafwyd 306 o ymatebion gan staff y Bwrdd Iechyd, sef cyfradd ymateb gyffredinol isel o 8%. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid y byddai arolwg o fodlonrwydd defnyddwyr â gwasanaethau TG yn cael ei gynnal cyn mis Rhagfyr 2018, er nad oes adroddiad wedi'i gyflwyno ar hyn eto.

116 Er bod cynllun gweithredu seiberddiogelwch ar waith, nid oes dadansoddiad o fylchau wedi'i gynnal yn erbyn allbynnau Asesiad Diogelwch Allanol GIG Cymru (a gynhaliwyd gan Stratia Consulting), ac a gynhaliwyd ar ôl creu'r cynllun. Nid oes unrhyw dystiolaeth ychwaith fod canfyddiadau Stratia (a ganolbwyntiai ar seiberddiogelwch a'r RhDDC) wedi cael eu rhannu â Phwyllgor priodol o fewn y Bwrdd. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd fod yn hyderus ei fod yn derbyn lefel briodol o sicrwydd ynghylch cryfder ei drefniadau seiberddiogelwch, ac os nad oes ganddo'r sicrwydd hwnnw, rhoi cynlluniau ar waith i gyflawni hynny.

117 Prosiect allweddol o fewn y Bwrdd Iechyd o hyd yw gweithredu System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, sef offeryn i gyrchu a chofnodi gwybodaeth er mwyn helpu gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol i gydweithio er mwyn darparu gofal i bobl yn nes at adref. Adroddir yn rheolaidd ar gynnydd y prosiect wrth y Pwyllgor Rheoli Gwybodaeth, Technoleg a Llywodraethu, ond cydnabyddir bod oedi ar raddfa genedlaethol o ran darparu swyddogaethau allweddol er mwyn i'r system weithio'n effeithiol i ymarferwyr yn amharu ar lwyddiant y prosiect.

# Argymhellion

Dangosyn 2: argymhellion 2018

| Argymhellion 2018 |
|---|
| **Llywodraethu** |
| A1 Nid oes gan y Bwrdd Iechyd gofrestr ar gyfer rhoddion, lletygarwch a nawdd. Dylai'r Bwrdd Iechyd sefydlu cofrestr a:<br>a) darparu hyfforddiant i'r staff ar sut i lenwi'r gofrestr rhoddion, lletygarwch a nawdd, gan gynnwys y gofyniad i fewnbynnu ymateb sero os na dderbynnir unrhyw beth; ac<br>b) egluro pa mor aml y dylai'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd dderbyn y ddogfen hon. |
| A2 Nodir yn y Rheolau Sefydlog ei bod hi'n ofynnol sefydlu Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd, ond nid oes gan y Bwrdd Iechyd fforwm o'r fath. Dylai'r Bwrdd Iechyd sefydlu Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd i gynghori'r Bwrdd ynghylch strategaeth a chyflawniad lleol. |
| A3 Er bod y Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar argymhellion sy'n weddill, nid oes ganddo draciwr argymhellion archwilio. Dylai'r Bwrdd Iechyd weithredu traciwr argymhellion archwilio sy'n cynnwys archwiliadau mewnol ac allanol. |
| A4 Nid yw tudalennau rhyngrwyd y Bwrdd Iechyd yn cynnig mynediad at bolisïau cyfredol fel y polisi atal twyll. Dylai'r Bwrdd Iechyd ddiweddaru ei wefan er mwyn cynnig mynediad rhwydd at bolisïau a strategaethau cyfredol. |

| Argymhellion 2018 | |
|---|---|
| **Effeithiolrwydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau** | |
| A5 | Nid yw amseriad cylch busnes y Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad yn caniatáu craffu manwl ar yr adroddiad ariannol diweddaraf cyn cyfarfod y Bwrdd. Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu ei drefniadau i alluogi craffu manwl ar yr adroddiadau ariannol misol. |
| A6 | Mae'r dull o lenwi papurau cyflwyno adroddiadau yn amrywio, a allai gyfyngu ar allu aelodau'r bwrdd i ganolbwyntio ar y meysydd pwysicaf. Dylai'r Bwrdd Iechyd wella papurau cyflwyno adroddiadau er mwyn sicrhau eu bod yn amlygu agweddau pwysig yr adroddiad, yn hytrach na disgrifio cynnwys neu ddiben yr adroddiad yn unig. |
| **Rheoli ariannol** | |
| A7 | Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu a diweddaru'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog gan nad ydynt wedi cael eu diweddaru ers 2016. |
| A8 | Nid yw'r holl Gyfarwyddwyr Gweithredol wedi llofnodi eu llythyrau cyllideb. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod holl lythyrau'r gyllideb wedi'u cyflwyno a'u llofnodi gan Dîm y Weithrediaeth cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. |
| A9 | Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud defnydd da o barau data'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) a gyhoeddwyd yn 2017. Dylai'r Bwrdd Iechyd roi cynllun gweithredu ar waith er mwyn sicrhau bod y parau y mae'n eu derbyn drwy ymarferion NFI yn y dyfodol yn cael eu hadolygu a'u rhoi yn nhrefn blaenoriaeth, ac yr ymchwilir yn brydlon iddynt, lle bo angen. Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>a) gychwyn adolygu'r parau data ar y cyfle cyntaf ar ôl rhyddhau parau nesaf y Fenter Twyll Genedlaethol ym mis Ionawr 2019; a<br>b) yn ogystal ag adolygu'r holl barau uchel eu blaenoriaeth a argymhellir i'w hadolygu, cynnal adolygiad o sampl o'r parau data sy'n weddill; |
| **Llywodraethu Gwybodaeth a TGCh** | |
| A10 | Mae polisïau llywodraethu gwybodaeth wedi cael eu datblygu ar gyfer Cymru gyfan, ond nid oedd y Bwrdd Iechyd wedi'u mabwysiadu, na chwblhau adolygiad o'i bolisïau mewnol ei hun. Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu ei bolisïau llywodraethu gwybodaeth ei hun, a mabwysiadu polisïau llywodraethu gwybodaeth Cymru gyfan. |
| A11 | Cymeradwyodd Cyngor Sir Powys Gyd-Strategaeth TGCh Powys yn 2018-2020, ond nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi'i chymeradwyo eto. Dylai'r Bwrdd Iechyd weithio gyda Chyngor Sir Powys i ddiweddaru a chytuno ar gyd-gynllun strategol ar gyfer TGCh. |
| A12 | Cynhaliodd Stratia Consulting Asesiad Diogelwch Allanol GIG Cymru, ond nid yw'r Pwyllgor Rheoli Gwybodaeth, Technoleg a Llywodraethu wedi gweld yr adroddiad. Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>a) sicrhau bod y Pwyllgor Rheoli Gwybodaeth, Technoleg a Llywodraethu wedi adolygu'r polisi; a<br>b) canfod a oes gan y Bwrdd Iechyd lefel briodol o sicrwydd ynghylch ei drefniadau seiberddiogelwch. |

# Atodiad 1

## Cynnydd wrth weithredu argymhellion blaenorol

Dangosyn 3: camau gweithredu mewn ymateb i argymhellion 2017, ac argymhellion blaenorol sy'n weddill

| Argymhelliad | | Camau a gymerwyd mewn ymateb i hynny | Cwblhawyd |
|---|---|---|---|
| A1 | Ni chymeradwywyd rhaglenni gwaith y Bwrdd na'i bwyllgorau ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Er inni gael sicrwydd bod yr holl bwyllgorau'n gweithio i ddrafftio rhaglenni gwaith, argymhellir y dylid cwblhau rhaglenni gwaith y Bwrdd a'r holl bwyllgorau cyn dechrau'r flwyddyn ariannol nesaf. | Cafodd rhaglenni'r pwyllgorau eu cymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Mai 2018, ac fe gymeradwywyd rhaglen y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2018. Er bod hyn yn dangos cynnydd, mae'r Prif Weithredwr eisiau i raglenni gael eu cymeradwyo gyda'i gilydd yn 2019-20 er mwyn sicrhau eu bod yn gyson y naill â'r llall. | Yn rhannol |
| A2 | Cynyddodd cyfradd drosiant y staff dros gyfnod treigl o 12 mis hyd fis Hydref 2017 i 11.55%, o 9.21% y mis Hydref blaenorol. Dyma'r gyfradd uchaf yng Nghymru. Er bod y Bwrdd Iechyd yn ceisio mynd i'r afael â hyn, argymhellwn y dylai'r Bwrdd Iechyd gyflawni gwaith pellach i ddeall y rhesymau pam bod cyfradd drosiant y gweithlu yn cynyddu a chymryd camau i ymdrin â'r cynnydd hwnnw. | Er bod gwaith helaeth wedi'i gyflawni er mwyn deall y gyfradd drosiant uchel a bod adroddiad wedi'i gyflwyno gerbron Pwyllgor y Gweithlu a Datblygu Trefniadol, mae'r gyfradd wedi codi eto yn 2018. | Do |

| Argymhelliad | Camau a gymerwyd mewn ymateb i hynny | Cwblhawyd |
|---|---|---|
| A3 Darperir gwasanaethau TG o dan gytundeb Adran 33 â'r Cyngor. Nid yw'r ddesg wasanaeth yn bodloni ei chytundeb lefel gwasanaeth (CLG) o ran yr amser a gymerir i ateb galwadau. Nid oes unrhyw arolygon bodlonrwydd wedi cael eu cynnal yn ddiweddar i ganfod beth yw safbwyntiau defnyddwyr TG ynghylch y gwasanaeth a ddarperir. Argymhellwn y dylid cynnal arolwg o fodlonrwydd defnyddwyr â gwasanaethau TG. | Ymateb y rheolwyr ym mis Rhagfyr 2017:<br>• Ers mis Tachwedd 2017, cyflwynwyd arolwg bodlonrwydd yn gysylltiedig â chofnodion o alwadau. Hyd yma, adroddwyd bod y gyfradd sy'n cwblhau'r arolwg yn isel (8%).<br>• Ymateb y rheolwyr oedd y byddai'r Bwrdd Iechyd yn ystyried sefydlu arolwg llawn ac yn cyflwyno bwrdd rheoli gwasanaethau i'r Bwrdd Iechyd er mwyn monitro, rheoli a diwygio'r CLG. | Ar y gweill |

# Atodiad 2

## Ymateb y Bwrdd Iechyd i argymhellion eleni

Pan fo'r pwyllgor perthnasol wedi ystyried yr adroddiad hwn, byddwn yn cynnwys fersiwn gryno o ymateb y Bwrdd Iechyd yn yr adroddiad cyn ei gyhoeddi ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

Dangosyn 4: ymateb rheolwyr i argymhellion 2018

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| A1 | Nid oes gan y Bwrdd Iechyd gofrestr ar gyfer rhoddion, lletygarwch a nawdd. Dylai'r Bwrdd Iechyd sefydlu cofrestr ac:<br>a) darparu hyfforddiant i'r staff ar sut i lenwi'r gofrestr rhoddion, lletygarwch a nawdd, gan gynnwys y gofyniad i fewnbynnu ymateb sero os na dderbynnir unrhyw beth. a<br>b) egluro pa mor aml y dylai'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd dderbyn y ddogfen hon. | Cytuno.<br>Bydd dull o gofrestru rhoddion, lletygarwch a nawdd yn cael ei ddatblygu, gan gynnwys trefniadau i adrodd wrth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. | Medi 2019 | Ysgrifennydd y Bwrdd |
| A2 | Nodir yn y Rheolau Sefydlog ei bod hi'n ofynnol sefydlu Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd, ond nid oes gan y Bwrdd Iechyd fforwm o'r fath. Dylai'r Bwrdd Iechyd sefydlu Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd i gynghori'r Bwrdd ynghylch strategaeth a chyflawniad lleol. | Cytuno.<br>Bydd y mecanweithiau cyfredol ar gyfer ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol yn cael eu hadolygu a Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd yn cael ei gyflwyno. | Hydref 2019 | Ysgrifennydd y Bwrdd ar y cyd â'r Swyddogion Gweithredol Clinigol |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| A3 | Er bod y Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar argymhellion sy'n weddill, nid yw wedi cyflwyno'r traciwr argymhellion archwilio ers cryn amser. Dylai'r Bwrdd Iechyd weithredu traciwr argymhellion archwilio syml sy'n cynnwys archwiliadau mewnol ac allanol. | Cytuno.<br>Bydd y gwaith sydd ar y gweill i gyflwyno system dracio fwy effeithiol wedi'i chwblhau, a chytundeb wedi'i sefydlu ynghylch y math o adroddiadau a gyflwynir gerbron y Pwyllgor Archwilio, ac amlder yr adroddiadau hynny. | Awst 2019 | Ysgrifennydd y Bwrdd |
| A4 | Nid yw tudalennau rhyngrwyd y Bwrdd Iechyd yn cynnig mynediad at bolisïau cyfredol fel y polisi atal twyll. Dylai'r Bwrdd Iechyd ddiweddaru ei wefan er mwyn cynnig mynediad rhwydd at bolisïau a strategaethau cyfredol. | Cytuno.<br>Mae'r rhyngrwyd a'r fewnrwyd yn cael eu huwchraddio, ac yn rhan o hyn bydd y polisïau i'w gweld yn fwy amlwg. | Hydref 2019 | Ysgrifennydd y Bwrdd |
| A5 | Nid yw amseriad cylch busnes y Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad yn caniatáu craffu manwl ar yr adroddiad ariannol diweddaraf cyn cyfarfod y Bwrdd. Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu ei drefniadau i alluogi craffu manwl ar yr adroddiadau ariannol misol. | Cytuno.<br>Bydd trefniadau'n cael eu hadolygu er mwyn ystyried sut i gyflwyno gwybodaeth yn fwy amserol gerbron y Pwyllgor, cyn cyflwyno gerbron y Bwrdd. | Mehefin 2019 | Ysgrifennydd y Bwrdd ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Cyllid |
| A6 | Mae'r papurau cyflwyno adroddiadau yn amrywio yn y modd y cânt eu cwblhau, a allai gyfyngu ar allu aelodau'r bwrdd i ganolbwyntio ar y meysydd pwysicaf. Dylai'r Bwrdd Iechyd wella papurau cyflwyno adroddiadau er mwyn sicrhau eu bod yn amlygu agweddau pwysig yr adroddiad, yn hytrach na disgrifio cynnwys neu ddiben yr adroddiad yn unig. | Cytuno.<br>Bydd papurau cyflwyno adroddiadau ar gyfer y Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd yn cael eu hadolygu a gwaith yn cael ei gyflawni i wella'r ffocws ar agweddau allweddol. | Mehefin 2019 | Ysgrifennydd y Bwrdd |
| A7 | Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu a diweddaru'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog gan nad ydynt wedi cael eu diweddaru ers 2016. | Cytuno.<br>Bydd y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn cael eu hadolygu a'u cymeradwyo yn ystod 2019/20. | Tachwedd 2019 | Ysgrifennydd y Bwrdd ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Cyllid |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| A8 | Nid yw'r holl Gyfarwyddwyr Gweithredol wedi llofnodi eu llythyrau cyllideb. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod holl lythyrau'r gyllideb wedi'u cyflwyno a'u llofnodi gan Dîm y Weithrediaeth cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. | Cytuno.<br>Bydd gwaith cynharach ar y CTCI (i'w gyflwyno ddiwedd mis Ionawr 2019) yn galluogi proses lyfnach ar gyfer cymeradwyo'r gyllideb ar ddechrau'r flwyddyn ariannol newydd. | Ebrill 2019 | Y Prif Weithredwr ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Cyllid |
| A9 | Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud defnydd da o barau data'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) a gyhoeddwyd yn 2017. Dylai'r Bwrdd Iechyd roi cynllun gweithredu ar waith er mwyn sicrhau bod y parau y mae'n eu derbyn drwy ymarferion NFI yn y dyfodol yn cael eu hadolygu a'u rhoi yn nhrefn blaenoriaeth, ac yr ymchwilir yn brydlon iddynt, lle bo angen. Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>a) gychwyn adolygu'r parau data ar y cyfle cyntaf ar ôl rhyddhau parau nesaf y Fenter Twyll Genedlaethol ym mis Ionawr 2019; ac<br>b) yn ogystal ag adolygu'r holl barau uchel eu blaenoriaeth a argymhellir i'w hadolygu, cynnal adolygiad o sampl o'r parau data sy'n weddill; | Cytuno.<br>Bydd adolygiad o barau data Ionawr 2019 yn cael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2019 (parau uchel eu blaenoriaeth a sampl o'r gweddill). | Mawrth 2019 | Cyfarwyddwr Cyllid |
| A10 | Mae polisïau llywodraethu gwybodaeth wedi cael eu datblygu ar gyfer Cymru gyfan, ond nid oedd y Bwrdd Iechyd wedi'u mabwysiadu, na chwblhau adolygiad o'i bolisïau mewnol ei hun. Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu ei bolisïau llywodraethu gwybodaeth ei hun, a mabwysiadu polisïau llywodraethu gwybodaeth Cymru gyfan. | Cytuno.<br>a) Bydd polisïau Cymru gyfan yn cael eu mabwysiadu; ac yn dilyn hynny<br>b) Cynhelir adolygiad o bolisïau llywodraethu gwybodaeth gofynnol y bwrdd iechyd. | a) Chwefror 2019<br><br>b) Mehefin 2019 | Ysgrifennydd y Bwrdd ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Meddygol |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| A11 | Cymeradwyodd Cyngor Sir Powys Gyd-Strategaeth TGCh Powys yn 2018-2020, ond nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi'i chymeradwyo eto. Dylai'r Bwrdd Iechyd weithio gyda Chyngor Sir Powys i ddiweddaru a chytuno ar gyd-gynllun strategol ar gyfer TGCh. | Cytuno.<br>Mae adolygiad o'r ymagwedd Digidol yn Gyntaf at Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd, er mwyn cael dealltwriaeth lefel uchel o weithgareddau cyfredol Digidol yn Gyntaf o fewn y Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym Mhowys. Cyn gynted ag y bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau, bydd yn cael ei gynnwys yn y Cyd-gynllun Strategol TGCh er mwyn sicrhau cysondeb a chynllun clir. | | Cyfarwyddwr Cyllid |
| A12 | Cynhaliodd Stratia Consulting Asesiad Diogelwch Allanol GIG Cymru, ond nid yw'r Pwyllgor Rheoli Gwybodaeth, Technoleg a Llywodraethu wedi gweld yr adroddiad. Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>a) sicrhau bod y Pwyllgor Rheoli Gwybodaeth, Technoleg a Llywodraethu wedi adolygu'r polisi; a<br>b) chanfod a oes gan y Bwrdd Iechyd lefel briodol o sicrwydd ynghylch ei drefniadau seiberddiogelwch. | Cytuno.<br>a) Bydd trefniadau'n cael eu gwneud i'r Pwyllgor Rheoli Gwybodaeth, Technoleg a Llywodraethu ystyried yr Asesiad.<br>b) Bydd y mecanweithiau sicrwydd sydd ar waith ar gyfer seiberddiogelwch yn cael eu hystyried a'u cryfhau lle bo angen. | Ebrill 2019 | Cyfarwyddwr Cyllid |

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales